YR YMOFYNYDD.

Rhif. 14.] CHWEFROR, 1860. [Ail Gyfres.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(*Parhad o tud.* 15, *Cyf.* II.)

III.

III. Gelwir cyfundrefn Hamilton yn Athroniaeth y Cyflyredig, (" *The Philosophy of the Conditioned,*") a hòna efe na ffurfir, ac nad ellir ffurfio, un drychfeddwl am *amser* a *lle* ynddynt eu hunain; fod y ffeithiau ymwybyddol ynghylch bodolaeth y byd gweledig a'r bôd a'i gwel, yn rhagflaenol i un prawf, ac i'w credu yn reddfol neu uniongyrchol (*intuitively*). Dywedai Des Cartes, *Cogito ergo sum* (meddyliaf, yna ydwyf,) gan wneyd y prawf o fodolaeth yn ganlyniad i'r weithred feddyliol. Ond yn wrthwyneb i hyn, cymer Hamilton yr honiad *ydwyf* yn gareg sylfaen i'w adeilad, yn ffaith reddfol ac annibynol yn rhagflaenu pob prawf, ac yn bodoli hebddo; ac hefyd, fod tystiolaeth yr ydwyf yma am fodolaeth y byd allanol, yr un mor reddfol ac annibynol. Yr honiad o fodolaeth, ac o *fôd* dynol, ydyw gwreiddyn yr Athroniaeth hon; ac am hyny derbyn yr enw *Philosophy of Common Sense*, gan nad oes un dyn a arfer ei synwyr cyffredin yn unig yn ammheu ei fodolaeth ei hunan, na bodolaeth y byd allanol. Rhaid i ni yma gymeryd yn ganiatäol fod y darllenydd yn gyfarwydd â hanes athroniaeth y meddwl, ac yn gwybod fod rhai, megys Locke, Condillac, ac eraill, yn gwadu nad oes genym un drychfeddwl ond yr hyn a dderbynir oddiallan; ac fod Berkeley, Fichte, ac eraill, yn gwadu bodolaeth y byd allanol. Mae Reid, a Hamilton ar ei ol ef, yn pleidio fod tystiolaeth y Synwyr Cyffredin yn sicrhau nid yn unig fod byd allanol, ond hefyd fod tystiolaeth ein synwyrau am dano yn wirioneddol, ac fod genym ddrychfeddyliau greddfol nad ydynt ddeilliedig o'r byd allanol, nac wedi eu derbyn trwy gyfrwng y synwyrau. Tybia yr Archddiacon fod yr honiad o fodolaeth, sydd mor nodweddol o gyfundrefn Reid a Hamilton, yn ddrychfeddwl adnabyddus i'r hen Gymry hefyd; a hòna fod prawf o'r ffaith yn nghyfansoddiad yr iaith Gymraeg, ac yn neillduol yn y geiriau,

Bod,	Dy-fod,
Can-fod,	Gor-fod,
Cyfar-fod,	Gwy-bod,
Dar-fod,	Han-fod,*

* *Gomer, Part* II., *page* xi.

a geiriau cyfansawdd cyffelyb. Ac yr oedd Syr William Hamilton ei hun yn ystyried fod yr iaith Gymraeg, yn ol esboniadau awdwr Gomer, yn brawf o'r un gosodiad, gan y dywedai,—

"I feel much flattered that any speculation of mine should obtain so competent an advocate and so weighty an authority as is the language of your ancient people."

Y mae, gan hyny, yn amlwg fod Hamilton a Williams yn ystyried fod cyfundrefn athronyddol o'r un fath ag eiddo yr Ysgol Ysgotaidd gan ein hynafiaid; ac y mae cydsyniad dau ysgolaig o'r fath enwogrwydd yn deilwng o ystyriaeth bwyllog.

Ond y pwnc yw, Beth yw arwyddiad y geiriau dan sylw, a geiriau cyfansawdd rheolaidd o'r un fath, yn y cysylltiad hwn? Mae yn ddiammheuol fod geiriau cyfansawdd yn ffrwyth myfyrdod, ac yn fesur o hono; ac y mae yn ffaith yr un mor amlwg fod iaith gyfoethog, rywiog, a llawn o eiriau cyfansawdd rheolaidd, nid yn unig yn wrthrych meddyliol ardderchog, ond hefyd yn arddangosiad o ddysg a chrebwyll, ac yn fesur o ddoethineb, myfyrdod a galluoedd meddyliol y genedl a'i meddianna. Nid oes ychwaith un achos i betruso dyweyd, fod y Gymraeg yn iaith o'r fath yma, ac yn haeddiannol o bob clod a pharch sydd deilwng i wrthrych mor ogoneddus. Mae yn gyfoethog mewn geiriau, yn rheolaidd yn ei chyfansoddiad, ac yn addas iawn, o herwydd ei hystwythder a'i rhwyddineb cymhlethiadol, at derfyniadeg wyddorol *(scientific terminology)*. Mae ynddi arwyddion dealltwriaeth helaeth, ac y mae yn ffaith a ellir ei phrofi yn hanesyddol pe bae raid, fod dynion o gynneddfau dysglaer, beirdd a llenorion, wedi ei wneyd yn amcan ac yn waith arbenig i'w choethi a'i chyfoethogi. Yn ei chyflwr presennol, mae nid yn unig yn iaith ragorol ynddi ei hun, ond hefyd yn brawf fod y Cymry a'i meddianant ac a'i carant yn genedl ddoeth, dreiddiol, a deallus. Gyda golwg ar y gair "canfod," i gymeryd un enghraifft o'r cwbl, cydsyniaf â Mr. Williams yn y gred ei fod yn gyfansoddedig o "Bod" a "can," sef yr un gair a "*ken*"—*to know*—i wybod. Mae y gair yn rheolaidd, wedi ei ffurfio o'r elfenau crybwylledig, ac yn dangos bwriad i ddynodi y weithred wybyddol trwy y gair—"canfod; ond a ydyw yn canlyn o angenrheidrwydd fod y gair "Bod" yn ddefnyddiedig mewn ystyr athronyddol?

Mae rhywbeth tra rhyfeddol, rhywbeth a bair syndod mewn hen iaith gyfoethog a rheolaidd yn disgyn trwy oesoedd anerirf o eithafoedd amser; ei pherffeithrwydd mewn cyfartalrwydd i'w hynafiaeth, a'i phriodoldeb gymaint fel nad oes braidd nac achos na modd i'w gwellhau, ac fel y dywed Alexander Humboldt, fod perthynas riniol (*"mysterious affinity"*) rhwng gair a chrebwyll *(between thought and language")*. Tueddid Warburton gan yr ystyriaeth yma i feddwl fod iaith yn un o anrhegion anwylaf y nef; ac ar y llaw arall barnai Aristotle fod ieithoedd o'r fath yma wedi disgyn o amseroedd cyn cof, pan oedd y gwyddorau a'r celfyddydau wedi eu dwyn i berffeithrwydd, ar ol hyny wedi syrthio i dir anghof, heb arwydd o'u bodolaeth ond y geiriau a ddefnyddid i'w dynodi. Mae yn amlwg fod golygiadau yr athronydd Groegaidd wedi dylanwadu yn helaeth ar feddwl yr Archddiacon; a phe buasai dychymyg y doethawr manylgraff hyny yn brawf diammheuol, gallasem ar unwaith gydsynio â Mr. Williams, ac ymhyfrydu yn y drychfeddwl fod ein hynafiaid wedi cyrhaedd graddau helaethach o wybodaeth, yn nhoriad gwawr amseryddiaeth, nag yr ydym ni, eu disgynyddion, yn eu meddiannu yr awr hon. Ni charem wneyd un honiad byrbwyll ar y mater

yma ; ond barnwn nad yw dychymyg Aristotle yn brawf anffaeledig, ac na ddylai ein rhwystro i edrych am ryw eglurhâd arall.

Mae i'r gair Bod dri o ystyriaethau, sef, 1, Trigfan, megis Havod (Bodhav), Bodedeyrn ; 2, *Existence* yn yr ystyr gyffredin, yr hyn a briodolir i ddynion a'r byd allanol ; ac yn 3, Yr unig wir fod annibynol—y Bod o Dduw. Nid oes a fynom ar hyn o bryd â'r ystyr flaenaf ; ac y mae, feddyliem, yn ddigon amlwg mai yr ail ystyr a berthyn iddo yn y geiriau "canfod," "darfod," a'r cyffelyb. Ond beth yw y casgliad naturiol yn ei gylch ? A ddefnyddir ef fel arwydd ddrychfeddwl annibynol ? Neu ynte mewn cysylltiad â chyfundrefn o athroniaeth ? Hyderaf mai yr ateb a roddid gan y mwyrif o Gymry fyddai hyn,—fod *bodolaeth* yn bresennol i'w meddyliau fel drychfeddwl annibynol, ac nad ydynt yn wybyddus o un cysylltiad athronyddol. Mae yn wir y gellir rhoddi nodwedd athronyddol i'r gair ; ac mae yr un mor amlwg fod y gair yn meddu addasrwydd neillduol i osod allan y drychfeddwl athronyddol. Ond defnyddid y ferf "*I am*," a'r gair "*Existence*," oesoedd lawer cyn amser Reid, a chan filoedd o ddynion na chlywsant son am ei enw ef na Hamilton, heb fod neb o honynt yn breuddwydio am gyfundrefn feddyliol. Mae geiriau cyfatebol gan gedhedloedd eraill heb un gwybyddiad o'r fath ; ac onid yw hyny yn naturiol ? Yn ddiweddar iawn y lluniwyd cyfundrefn Hamilton ; ac y defnyddiwyd y drychfeddwl o fodolaeth fel sylfaen cyfundrefn ; ond nid oes un genedl ar y ddaear wedi bod yn ammheus am eu bodolaeth eu hunain ; ac onid yw yn naturiol iddynt feddiannu geiriau i osod allan y drychfeddwl hwnw yn ei symlrwydd, heb feddwl am un cysylltiad arall ? Tybiaf ei fod ; tybiaf mai yr ystyr syml yma a roddid i'r gair *bod* gan y Cymry ; ac y mae y ffaith nad yw mewn un man yn cael ei ddefnyddio fel rhan o gyfundrefn feddyliol yn cadarnhau fy ngolygiad.

Atebir, fe allai, fod yr haeriad olaf yn ammheus, gan fod cysylltiad neillduol i'r gair yn Noethineb y Cymry ; ond, yn flaenaf rhaid priodoli yr ystyr yma i'r gair yn oesoedd boreuol yr iaith Gymraeg, ac nid yw yn oddefol i gymeryd y diarebion fel profion, gan eu bod yn cyfeirio at "lyfrau anghyfiaith," ac at "rhodriaid a seintiau o bell," ac o ganlyniad at nodweddion neillduol y canoloesoedd ; ac yn ail, y mae y drychfeddwl yn wahanol, ac yn groes hollol i eiddo Hamilton a Williams.* Os oes synwyr mewn geiriau, maent hwy yn hòni bodolaeth y gweladur a'r byd gweledig ; ond hòna Doethineb y Cymry nad ellir priodoli bodolaeth i'r naill na'r llall ; a chydsynia â'r Platonyddion newydd (*Neo-Platonists*) yn yr hòniad nad oes un Bôd ond Duw. Dywedant yn bendant, "Nid dim ond Duw," "Nid bod ond Duw." Eto, "Nid bod ond byw, ac nid byw ond Duw." Ac eto, "Nid bod, ond yr hyn nis gellir dadvod arno—sef Duw." Traethir yr un peth mewn gwahanol eiriau, ac nid wyf yn petruso dyweyd mai y drychfeddwl Neo-Platonaidd a osodir allan yn Noethineb y Cymry, and nid un peth perthynol i feddyleg Hamilton. Gan hyny, gyda phob parch dyledus at yr Archddiacon Williams, barnaf nad oes un sail i gredu fod cyfundrefn athronyddol gan y genedl Gymreig.

* "The fact of consciousness which testify the existence both of the ego and the non-ego, that is, of the preceiving mind, and the external object preceived, are to be believed intuitively and are prior to any possible demonstration.

Summary of the Hamiltonian Philosophy ; page 44.

Os cywir y syniadau hyn, mae y gofyniadau cangenol yn syrthio i'r llawr; ac nid yw yn ofynol cymeryd un sylw ychwanegol o honynt.

Eto, yr wyf yn anfoddlawn i ymadael â'r testun hwn, heb ddyweyd gair neu ddau yn ychwanegol. Mae neillduolrwydd tra theilwng o sylw yn Noethineb y Cymry; ac y mae diolchgarwch y genedl yn ddyledus i'r Archddiacon am ddwyn y ffaith dan sylw dysgedigion. Cydsyniaf âg ef ynghylch neillduolrwydd y gweddillion hyny; ond gwadaf eu hynafiaeth, ac ammheuaf gywirdeb yr eglurhâd o honynt a roddir ganddo ef. Yr oedd gan y beirdd Cymreig gyfundrefn—nid o athroniaeth, ond o Ddwyfoldeb; a chan fy mod wedi cyfeirio ati gymaint o weithiau eisoes, bydd yn fath o gwblhâd i'r traethiadau rhagflaenol, ac fe allai yn foddlonrwydd i'r darllenydd, os nad i'r genedl, i ni roddi crynodeb o'r athrawiaeth grybwylledig. "*Barddas*," fel ei gelwir gan feirdd Morganwg, yw y peth sydd genyf mewn golwg. Mae y gweddillion a'i cyfansoddant yn gynnwysedig yn "Noethineb y Cymry," (*Myvyrian Archæology*, Cyf. III.); yn y nodiadau at "*Lyric Poems*" Edward Williams, sef Iolo Morganwg; yn yr Iolo MSS.; ac yn nghywyddau Iolo Goch, Gwilym Tew, Rhys Goch o Eryri; Llewelyn Moel a Rhys Brydydd. Hòna Ieuan Myfyr o Bont y pridd, fod gwybodaeth gyfriniol Cadair Morganwg wedi disgyn iddo ef; ond nid ymddengys i ni fod ganddo un defnyddiau ychwanegol at yr hyn sydd gyhoeddedig eisoes.

Yr athrawiaeth sydd fel y canlyn:—

I. Duw, cyn bod na byw na bôd ond efe ei hun, a roddes ei enw ar lafar, nid amgen nag



a chyda'r gair llamodd yr holl fydoedd a'r holl fywydau i fodolaeth o anfodoldeb, mewn bloedd gorfoledd, gan adlefaru enw Duw. Yr oedd y llafar hwnw yn bereiddlais iselfain; ac nis gellir ei ail cyn y dychwel Duw bob hanfod o'r marwoldeb a ddyg pechod arno, pan adlefair Duw ei enw.

II. Yr oedd y greadigaeth hon yn rhanedig i dri o gylchoedd, sef *Cylch y Ceugant*, lle nad oes na byw na marw ond Duw ei hun; *Cylch y Gwynfyd*, yn ateb i'r nef yn yr ystyr gyffredin, lle mae yr angelion yn awr, ac y bydd dynion yn ol llaw; a *Chylch Abred*, sef y Byd Anianol. Mae i bob byw dri o gyflyrau, sef Cyflwr Abred yn Annwn, Cyflwr Rhyddid yn Nyndod, a Chyflwr Cariad neu Wynfyd yn y Nef. Cyfnewidiad yw prif ddeddf Abred, sef mewn geiriau eraill—*the Circle of Metempsychosis*, neu Gylch y trawssymudiad eneidiol; ac yn ol y ddeddf hono mae pob hanfod yn esgyn o waelod y deyrnas anifeilaidd—o Annwn hyd gyflwr Dyndod, ac o Ddyndod, a'r farwolaeth, naill ai yn *uniongyrchol* i'r Nef, neu ynte o herwydd ymddygiad drygionus yn cael ei droi yn ol i dreiglo Abred eilwaith, ac felly yn barhâus nes bydd wedi ei buro oddiwrth bob pechod, ac yn addas i esgyn i fyny i Gylch y Gwynfyd. Hyny yw, mewn ffurf fywgraffiadol, yr ydych chwi a minnau, darllenydd hynaws, wedi dechreu ein gyrfa oddiar yn agos i seiliad y byd, pan gyfododd gwrthryfel yn Nghylch y Gwynfyd yn erbyn Cylch y Ceugant, ac y bwriwyd Satan a'i ganlynwyr angelaidd o'r nef, i ymgymysg â marwoldeb *(chaos)*. Yr oeddem ni yn ganlynwyr Satan y pryd hyny, ac o'r amser hwnw hyd yr awr hon, yr ydym wedi bod yn treiglo

Cylch Abred; pa mor fynyched, ni wyddom yn y fuchedd hon, ond cawn adgofio y cwbl yn Nghylch y Gwynfyd. Ar ein hymddygiad yn ein cyflwr dynol, gan ein bod yma yn ddeiliaid Ewyllys Rydd, yr ymddibyna ein cyflwr dyfodol; os ydym yn feilchion, troir ni yn ol i ddyfnder Cylch Abred—i ANNWN; os yn anwireddus, hyd OBRYN; ac os yn annhrugarog hyd at Gydfil, i bori gydag anifeiliaid y maes; ond os yw ein hymddygiadau yn rhinweddol, cawn esgyn i gylch Gwynfyd, lle yr oeddem cyn y cwymp, ac yno adgofiwn ein trelgliadau abredawl trwy oesoedd tragwyddol o ddedwyddwch.

III. Mae marwolaeth yn rhan o Ragluniaeth Duw i waredu dyn rhag "corff y farwolaeth hon;" gan fod pob marwolaeth, neu ymddyosgiad corfforol yn danfon yr yspryd treigladwy gam yn y blaen yn ei yrfa osodedig. Mae yn bechod o'r mwyaf i ladd un creuadur, ni waeth pa mor waeled y bydd; ond ar yr un pryd, mae pob marwolaeth yn llesâd i'r dyoddefydd.

IV. Tra y mae yr ysbryd yn y cyflwr dynol, mae iddo Iachawdwr, sef Hu Gadarn; yr Haul yw ei drigfan, a'r arwydd gweledig o'i fodolaeth a'i ymdrechion, i fyd o bechaduriaid; ac fel y mae yr haul anianol yn bywiogi y ddaear, felly mae yntau, yr haul ysbrydol, yn adferu ysbrydion syrthiedig o afael y Drwg, yn ol i Gylch y Gwynfyd.

Hyn yn fyr yw sylwedd BARDDAS, ac er yr honir ei bod yn gyfundrefn ddirgel, ac wedi disgyn yn rheolaidd o gyfnod y Derwyddon, nid yw yn gofyn ond adnabyddiaeth â hanes foreuol yr Eglwys Gristionogol i weled nad oes yma un dirgelwch ond dirgelwch yr estrys—neb mewn tywyllwch ond y beirdd eu hunain; ac nid yw, ar y llaw arall, yn gofyn ond adnabyddiaeth â hanes yr Eglwys yn y canoloesoedd i weled pa bryd y daeth i blith y beirdd Cymreig. Ymddengys i'r beirdd ymaflyd yn y golygiadau hyn pan oedd *debris* neu adfeilion amrywiol gyfundrefnau athronyddol, yn treiglo ar wasgar trwy y meddwl Ewropeaidd; gan fod Barddas yn gyfansoddedig o ddarnau o wahanol gyfundrefnau anghysylltiedig; ac yn anesboniedig heb eu cymeryd ynghyd.

(I'w barhau.)

DYWED Coleridge "fod y dynion hyny sydd yn dechreu trwy ddewis Cristnogrwydd o flaen gwirionedd, yn arfer diweddu trwy ddewis *hunan* o flaen Cristnogrwydd."

Y GOLEUNI DRWY'R FFENESTR.—Ychydig o flynyddau yn ol, pan oedd Eglwys plwyf ——— wedi syrthio i gryn ddadfeiliad, dodwyd y plwyfolion dan dreth tuag at ei hadgyweiriad; ond cynygiodd y Ficer y buasai iddo ef ei hun ddwyn y draul o adnewyddu y ffenestri. Derbyniwyd y cais yn ddiolchgar, a thalodd pawb y dreth yn weddol ddiddig, ac adgyweiriwyd yr Eglwys, oddieithr y ffenestri, y rhai a arosent yn yr un cyflwr a chynt. Er bod y plwyfolion wedi gorphen eu rhan hwy o'r gwaith, yr oedd y Ficer am eu cadw o hyd yn yr offer, a danfonodd ei was attynt i ofyn eu hewyllysiau da at y ffenestri. Daeth y gwas at un ffermwr yr hwn a ystyriai fod ei ran ef eisioes wedi ei gwneud, ac mai iawn oedd i'r person gadw ei addewid, Pleidiai y gwas achos ei feistr, a chrybwyllai enwau rhai cymydogion ag oeddent wedi cyfranu, er goglais y ffermwr i'r eithaf. O'r diwedd dywedodd yr olaf, "Wel, pe cawsai dy feistr fy ewyllys da at unrhyw ran o'r eglwys, at y ffenestri y cawsai; waith cymmaint o oleuni ag a gefais i erioed ynddi, trwy y ffenestr y delai."

AR FODOLIAETH DUW.

(*Parhad o tud.* 17.)

Nid rhyfedd ein bod yn teimlo ac yn gorfod cydnabod amherffeithrwydd ein cynneddfau, pan yr ydym yn eu rhoi ar waith ar y fath destun a hwn. Teflir ni i anhawsderau nas gellir dyfod o honynt wrth ystyried dechreuad *gweithredoedd* Duw. Y mae yn anmhosibl i ni ddychymyg pa fodd y gallasai y greadigaeth fod yn gydoesol â'i Gwneuthurwr; ac etto, os caniatawn fod amser wedi bod oll pan nad oedd dim yn bodoli, ond y Bod Dwyfol ei hun, rhaid i ni dybied fod tragywyddoldeb cyfan wedi myned heibio cyn bod un crëad; tragywyddoldeb yn yr hwn yr oedd y Bod Dwyfol yn feddiannol ar allu a thuedd i greu ac i ddedwyddu, heb iddo unwaith eu rhoddi mewn gweithrediad; neu y rhaid fod rheswm dros greu wedi ymgynnyg iddo ar ol treigliad tragywyddoldeb cyfan, nas ymgynnygasai iddo o'r blaen; ac ymddengys y rhai hyn yn fwy o anhawsderau na'r llall. Ar y cyfan ymddengys yn fwy cyttunol â rheswm, er dichon nas gall ein rheswm ei amgyffred o gwbl, na fu amser oll pan nad oedd y Bod mawr diachosedig a'i berffeithderau ar waith, yn rhoddi bywyd a dedwyddweh i'w blant. Ac nis bydd i ni deimlo mwy o anhawsdra yn ein gwaith yn addef fod y greadigaeth,megys na bu dechreuad iddi; felly hefyd *heb derfyn* iddi, eithr bod yr ëangder yn llawn o fydoedd yn mha rai y mae gallu, doethineb, a daioni Duw, wedi bod yn barhaus, ac i fod bob amser yn amlygedig ac ar waith.

Nid ymddengys fod un anhawsdra yn y tybiaethau syn-ryfed'ol hyn, ond sydd yn cyfodi oddiar amherffeithrwydd ein cynneddfau; ac os bydd i ni wrthod y tybiaethau hyn, byddwn o angenrheidrwydd yn rhwym o gymeryd at eraill a fyddant yn fwy annhebygol etto, ac felly i daflu ein hunain i anhawsderau o fwy. Y mae, yn wir, yn anmhosibl i ni lunio meddwl, mewn modd cyfartal, am unrhyw beth ag sydd yn anfeidrol, neu chwaith i amlygu ein meddwl am dano heb syrthio i wrthyni neu groesddywediad ymddangosiadol. Os dywedwn ei bod yn annichonadwy fod gweithredoedd Duw wedi bod er tragywyddoldeb, gallwn ddywedyd yr un peth am unrhyw fwriad neillduol yn y meddwl Dwyfol, neu am ryw foment neillduol o amser yn y tragywyddoldeb sydd wedi myned heibio, oblegid y mae y rhai'n i gyd o natur digwyddiadau (*events*) neillduol; pa rai sydd raid eu bod wedi cymeryd lle ar ryw amser terfynol, neu ar ryw bellder terfynedig, neu ysbaid penodol, oddiwrth y foment bresennol. Ond gan ein bod yn sicr ei bod yn rhaid fod y Bod Dwyfol ei hun a pharhâd (*duration*) hefyd, wedi bod heb ddechreuad, serch yr ymresymiad hyn—gall fod gweithredoedd Duw hefyd fod heb ddechreuad, serch yr un ymresymiad. Dichon y lleihair yr anhawsder i ni, o ystyried y gall nad yw meddwl neu fwriadu, a gweithredu, neu greu, ddim ond yr un peth gyda Duw.

Mor bell mae ein meddyliau o fod yn ddigonol i'r myfyriaethau (*speculations*) hyn, fel ag er ein bod bawb yn cyttuno ei bod yn rhaid fod parhad diderfyn wedi myned heibio o flaen y foment bresennol, a bod parhad arall diderfyn o angenrheidrwydd i ganlyn; ac er fod y blaenaf o'r rhain yn derbyn chwanegiadau yn barhaus, yr hyn, i'n dychymyg ni, sydd yr un peth a bod yn barhaus yn cynnyddu; a'r olaf yn barhaus gael tynu oddiwrtho, yr hyn i'n dychymyg ni, sydd yr un peth a myned yn llai yn barhaus; er hyny gorfodir ni i gydnabod eu bod wedi bod erioed ac yn rhaid i fod bob amser yr un hyd yn gymmwys; heb fod y naill, un amser, i amgyffrediad, yn fwy

neu yn llai na'r llall. Ac nis gallwn ychwaith ddychymyg p'odd y gall y ddau dragywyddoldeb (yr un sydd wedi myned heibio, a'r un sydd i ddyfod) a'u cymeryd ill dau ynghyd, fod yn fwy na'r naill neu'r llall o honynt a'r wahan.

Wedi profi bodoliaeth Duw, fel Achos dechreuol, Creawdwr a Llywodraethwr pob peth; arweinir ni yn naturiol i ymofyn yn y lle nesaf, pa briodoleddau y sydd yn eiddo iddo. Yn awr cymmer y rhai hyn yn naturiol eu rhanu yn *ddau dosparth:* ys ef, naill ai y cyfryw a darddant oddiar ei ystyried fel Achos dechreuol pob peth, neu y cyfryw ag y mae yr ystyriaeth o weithredoedd ei ddwylaw yn ein harwain i briodoli iddo.

Dosran II.

Am Briodoliaethau'r Duwdod, a gesglir oddiwrth yr ystyriaeth o'i fod yn Achos dechreuol pob peth.

Heb un olwg neillduol ar weithredoedd Duw, nis gallwn lai na chasglu fod Achos dechreuol pob peth, o angenrheidrwydd, yn *dragywyddol;* oblegid, yn gymaint nas gallasai dim ddechreu bodoli heb achos, pe buasai amser oll pan nad oedd dim yn bodoli, ni allasai dim fod yn bodoli yn bresennol.

Yn ail, rhaid fod yr Achos dechreuol hefyd yn *anghyfnewidiol*, neu ddim yn agored i droedigaeth. Ymddengys nad oes angen am un prawf arall o hyn, ond yr anmhosiblrwydd i ddychymygu oddiwrth ba beth y gallasai cyfnewidiad gyfodi mewn Bod di-achosedig. Os nad ydoedd achos o'i fodoliaeth ef ei hun, fe ymddengys ei bod yn canlyn, nas gallasai fod un achos o un cyfnewid yn y dull o'i hanfodi; fel ag pa beth bynag ydoedd yn ddechreuol, rhaid iddo barhau i fod felly am byth. Heblaw, y mae galluogrwydd i beri cyfnewid mewn unrhyw fod neu beth, yn cynnwys rhywbeth blaenorol ac uwchlaw, rhywbeth a all orfodi, ac nas gellir ei wrthsefyll; yr hyn nis gall fod yn wir ond am yr Achos Goruchaf ei hun.

Anghyfnewidioldeb y Bod Dwyfol, neu ei fod ef yn un nas gellir gweithredu arno neu ei orfodi gan neb arall, ydyw yr hyn ydym yn feddwl pan y dywedwn ei fod yn Fod *anymddibynol*, os wrth y term y meddyliwn ddim yn rhagor nag ei fod yn ddiachosedig.

(*I'w barhau.*)

CRYNODEB BYR O HANES MICHAEL SERVETUS,

Ynghyd a'r driniaeth gafodd gan lawer o'r Diwygwyr, ac yn neillduol gan John Calvin, yr hwn achosodd iddo i gael ei gymmeryd i fynu a'i osod i farwolaeth, am wahaniaethu oddiwrtho mewn barn a gwrthwynebu ei athrawiaeth.

Dywedir i Michael Servetus gael ei eni yn y flwyddyn 1509, yn Villanueva, yn Arragon; neu fel y dywed eraill yn Tudelle, yn Navarre, i ba le yn debygol y symudodd ei rieni o Villanueva. Ei dad, yr hwn oedd nodiadur, roddodd iddo ddysgeidiaeth ragorol, a dywedir iddo ei anfon ef yn ieuanc i Brifysgol yn Thoulouse, i fyfyrio y gyfraith wladol; ond amheus yw hyny. Tybir iddo dreulio boreuddydd ei fywyd yn Tudelle, ei enedigol le. "Yno,"

medd un bywgraffydd, "oedd yn byw Iuddewon, Moors, a Christnogion yn dawel; ac yno yn fwyaf tebyg y derbyniodd ei ddysgeidiaeth a'i elfen at ryddid gwladol a chrefyddol, ac hefyd ei wybodaeth o feddyginiaeth a'i dybiadau neillduol am grefydd. Yr oedd yn fyfyriwr yn ieuanc iawn, ac yr oedd yn deall Lladin, Groeg, a Hebraeg, ac i ryw raddau hefyd philosophyddiaeth ac uwchradd-fesuriaeth *(mathematics)* cyn ei fod yn bymtheg oed. Ei arosiad yn y Brifysgol ddywededig, os arosodd yno un amser, oedd fwyaf tebygol ar ol yr ysbaid hyny o'i oes. Pa bryd y llyncodd gyntaf egwyddorion bedydd a gwrthdrindodiaeth nid ymddengys; ond ymddengys eu bod ymhlith ei dybiadau crefyddol boreuaf, a daeth yn fuan yn hoff iawn o honynt."

"Ar ol iddo fod ddwy neu dair blynedd yn Thoulouse," medd un arall o'i fywgraffwyr, "penderfynodd fyned i Germany, a gosod ei hun allan yn ddiwygiwr. Efe a aeth i Basil trwy Lyons a Geneva; ac wedi iddo gael cynnadledd yn Basil âg Œcolampadius, efe a aeth tua Strasburgh, oherwydd ei fod yn fawr ei chwant i gael ymddiddan â Bucer a Capito, dau ddiwygwyr o'r ddinas hyny. Ar ei ymadawiad o Basil gadawodd ysgriflyfr yn erbyn Trindodiaeth yn llaw Conrad Rouss, llyfrwerthwr, yr hwn a'i hanfonodd yn ol llaw i Haguenau. Aeth Servetus yno yn y flwyddyn 1531 er argraffu yr ysgriflyfr: eafodd y darn hyny ei gyhoeddi yn Strasburg a Frankfort cyn mis Awst y flwyddyn hono. Pan ei dygwyd i Switzerland, amryw o'r duwinyddion Protestanaidd gawsant eu hanfoddloni ganddo. Œcolampadius, wrth ysgrifenu ar yr achlysur at Bucer, ddywed, 'Gwelais yr wythnos hon ein cyfeillion yn Berne, y rhai ddymunant eu cofio attoch chwi a Capito; y maent wedi eu tramgwyddo yn fawr â llyfr gyfenwir *De Trinitatis Erroribus* (Ynghylch Cyfeiliornadau Trindodiaeth), pa un welodd rhai o honynt. Dymunaf arnoch chwi i hysbysu i Luther fod y llyfr hwn wedi cael ei argraffu allan o'r wlad hon, ac heb ein gwybodaeth ni; canys, i grybwyll ond un erthygl, y mae yn beth digywilydd iddo haeru nad ydyw y Lutheriaid *yn deall Athrawiaeth y Cyflawnhad.* Mae y dyn hyny, pa un ai Photinian neu o ryw sect arall ydyw, yn meddwl ei fod ef yn deall mwy na neb arall. Dywedir yn warthus am ein heglwysi, oddieithr i'n duwinyddion wneuthur yn orchwyl iddynt i *floeddio hwn i lawr.* Attolygaf arnoch chwi yn neillduol i gadw llygad gwyliadwrus arno, ac i wneud esgusawd dros ein eglwysi, o leiaf yn eich gwrthbrawf cyfeiriedig at yr Ymerawdwr. Ni wyddom ni pa fodd y darfu i'r *bwystfil yna* i ymlusgo i mewn i'n plith ni; y mae yn gwyrdroi holl ranau yr Ysgrythyr, i brofi nad ydyw y *Mab yn gyd-dragwyddol ac yn gyd-sylweddol a'r Tad,* ac mai Mab Duw yw y dyn Crist." Y llythyr cywraint hyn ddyddiwyd Awst 5, 1531. Dau lythyr ysgrifenwyd hefyd gan yr un person at Servetus ynghylch yr amser hyny, ymha rai yr ymdrechodd mewn modd mwynaidd i wrthbrofi yr hyn grybwyllodd yn ei lyfr, ac a ddymunodd arno i ymwrthod â'i gyfeiliornadau. Y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd yn Haguenau lyfr arall yn erbyn Trindodiaeth. Ar ol hyny penderfynodd i ddychwelyd i Ffrainc, o herwydd ei fod yn dylawd, ac nad oedd yn deall y iaith Ellmynaidd; y rhai oeddent y rhesymau osododd allan ar ei brawf.

Melancthon, enw priodol neu gyntefig yr hwn oedd Schwartzed, ysgrifenodd lythyr at Joachim Camerarius, yn cynnwys ei feddyliau am Servetus a'i lyfrau. Mae yn ei ddarlunio yn ddyn cywrain a chyfrwys, a'i feddyliau yn ddyryslyd o ddiffyg myfyrio digon ar y pethau y mae yn eu trin, ac fod

ei dyb ar Gyfiawnhad yn ffol, &c.; a chwanega, "Gwyddoch fy mod i o hyd yn ofni y buasai y dadleuon yma i dori allan ryw amser neu gilydd. Y Duw daionus! pa alanastra gynnyrcha y pwnc hyn rhwng yr oesau a ganlyn, pa un ai hanfod neu berson yw y *Logos* (y Gair)? pa un ai hanfod neu berson yw yr Ysbryd? Wrth y geiriau ysgrythyrol hyn y deallaf y gorchymynir fi i addoli Crist; hyny yw i briodoli yr anrhydedd o *ddwwdod* iddo, yr hyn sydd yn llawn diddanweh. Ond nid ydyw mewn un modd yn gymmwys i chwilio yn fanol i'r drychfeddyliau am hanfodau neu bersonau, a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt."

Ar ol i Servetus aros ddwy neu dair blynedd yn Lyons, aeth i Paris, ac ymroddodd i fyfyrio y gelfyddyd o Feddyginiaeth. Derbyniodd yr urdd A. M., ac yn fuan wedi hyny derbyniodd yr urdd M. D. yn y Brifysgol yno. Dywed Beza fod Calvin yn ei adnabod ef pryd hynny yn Paris, ac iddo wrthwynebu ei athrawiaeth; ac hefyd iddynt gyduno i gael dadl, ond i Servetus drachefn nacäu, neu na feiddiai ei gyfarfod ef; yr hyn, os gwir, ellir gyfrif am dano o herwydd yr yspryd erlidgar oedd pryd hynny yn ymgynddeiriogi yn ffyrnig yn y ddinas hono.

Tra yr oedd Servetus yn Paris, taenwyd ei lyfr ynghylch "Camsyniadau Trindodiaeth" (De Trinitatis Erroribus) yn Italy, a chymmeradwywyd ef yn fawr gan lawer oedd yn tueddu i ymwrthod âg Eglwys Rufain. Pan glywodd Melancthon am dano, ysgrifenodd (yn y flwyddyn 1539) at Senedd Babaidd Venice hyspysiad fod llyfr o waith Servetus, yr hwn a adfywiai gyfeiliornad Paul o Samosata, wedi cael ei daenu oddiamgylch yn eu gwlad. Erfyniodd arnynt gan hynny i ddefnyddio eu hymdrechiadau mwyaf er gochelyd cyfeiliornadau a dyn hwnnw, a'u gwrthod a'u ffieiddio. (Sylwer yma i'r annerchiad neu'r cais yma gael ei wneud gan un o'r prif Ddiwygwyr at gorphoraeth o Babyddion ffyrnig! gan ymddangos yn ofnus na fuasent yn barod i fyned ymlaen i eithafoedd digonol yn erbyn hereticiaid fel Servetus. Hwn ydyw'r gwr a elwir yr *hynaws* Melancthon!) Nid yw yn annhebyg na chafodd Lœlius Socinus, ewythr Faustus, a llawer eraill o drigolion Italy eu golygiadau gwrth-drindodaidd o lyfr Servetus. Yr olaf, ar ol terfynu ei fyfyrdodau yn Paris, a adawodd y ddinas hono er cario ymlaen ei alwad fel meddyg yn rhyw le arall; yr hyn a wnaeth dros ddwy neu dair blynedd yn Charlieu a Lyons, ac wedi hynny yn Vienne yn Dauphine dros ddeuddeg neu dair blynedd ar ddeg. Aeth i aros yno ar gais neu trwy gynghor a gwahoddiad Archesgob y lle, sef Peter Palmier, yr hwn oedd yn gyfaill nodedig iddo, ac a gynnygiodd yn garedig iddo i wneuthur ei artref yn ei balas ef. Yno y bu fyw am flynyddau yn ddiogel a chysurus, bob amser ynglŷn a'i alwedigaeth, neu ryw ganghen o ddysgeidiaeth. Aethai yn fynych i Lyons, ymha le yr adolygodd argraphiad newydd o Feibl Lladin unplyg Pagnini, a argraffwyd gan Hugo de la Parte, i ba un y chwanegodd ragymadrodd a sylwadau ar ymyl y dail. Galwai Calvin y sylwadau yn amherthynasol ac annuwiol; ond sylwyd, fod dynion doethach nag ef yn meddwl fel arall, ie, yn hollol wrthwynebol. Gwnaeth Servetus esponiad llythyrenol i amryw o'r prophwydoliaethau; ac ystyriai Calvin hynny yn anmharchus i Iesu Grist. Hysbysodd Servetus ryw amheuaeth ynghylch ffrwythlondeb neilldiol Palestina, dywedai Calvin, "yr oedd yn feirniad megys penbwl ac anifail, a phan y dywedwyd wrth yr ysgelergi (chwanegai) ei fod yn gabldraeth, ni wnaeth ond yn unig sychu ei enau a dywedyd, bydded i ni bassio heibio i hyn, nid oes dim niweid ynddo." Darfu i Calvin, pa fodd bynnag, ohebu

trwy lythyrau ag ef am amser maith, ac ymdrechu, fel y dywed, dros ysbaid un flynedd ar bymtheg i'w ddychwelyd o'i gamsyniadau. Yr oedd y naill yn awyddus i ddychwelyd y llall. Cynnwysai un o lythyron Servetus a anfonodd efe o Lyons y gofyniadau canlynol, pa rai ddymunai ar Calvin eu hatteb :—1. Ai y dyn Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd, oedd mab Duw ; a pha beth oedd achos ei faboliaeth? 2. Pa un a ydyw teyrnas Dduw mewn dyn ; Pa bryd y gall dyn fyned iddi ; a pha bryd yr adgenhedlir ef? 3. A ddylai bedydd Cristnogol gael ei weinyddu mewn ffydd, fel swpper yr Arglwydd, ac i ba ddyben y sefydlwyd y pethau hyn yn y cyfammod newydd?" Atteb-odd Calvin y gofyniadau hyn. Ond Servetus, ymhell o'i foddloni gan ei esponiadau, ysgrifenodd atto ail lythyr yn cynnwys gwrthbrawf i'w attebion ef. Cafodd Calvin ei anfoddloni yn fawr trwy hyn, a gwnaeth atteb sarrug, fel y cyfaddefai ef ei hun. Ar hyn Servetus, yr hwn nid oedd lai tanllyd na'i wrthwynebwr, ddaeth yn ei dro yn ddigllon iawn wrtho ef. Achwynai Calvin, na ddarfu i'r *heretic* hwnnw beidio o'r amser hynny gyhoeddi mell-dithion yn ei erbyn ef. Dichon fod y cyhuddiad hyn yn ddisail ; ond os nad ydyw, ni ddylasai yn sier ladd yr *heretic* tlawd er ei 'felldithion.' Anfon-odd Servetus lawysgrif i Calvin er cael ei farn ef arni ; a chwe' blynedd cyn iddo gael ei ddal yn Geneva ; ac er na argraphwyd yr ysgrif hynny, dygwyd hi yn ei erbyn ar ei brawf. Y fath ffyrdd annheg gymmera yn fynych erlid-wyr ac ymgeiswyr, pan y cymmerant arnynt eu bod yn gweithredu dan ddy-lanwad cariad Crist! Yr oedd Calvin wedi ei gynhyrfu gymmaint yn erbyn Servetus fel nas gallsai lai na'i ddifenwi yn ei esboniadau ar y Beibl ; canys y mae efe yno yn ei alw yn "dnyn ysgeler, llawn o falchder ; y dyhiryn balchaf o'r genedl Yspaenaidd, ac yn *gi*." Ar ei sylwadau ar Genesis i. 3, cyhudda ef o gabldraeth, a dywed "y *ci brwnt hyn* sy'n cyfarth fel a'r fel." Dywed Varilla fod llythyr yn Paris o eiddo Calvin at Farel, a ysgrifenodd yn y flwyddyn 1546, ymha un y crybwylla i Servetus ysgrifenu fath bethau annioddefol, fel os byth y deuai ef i Geneva (fel y darfu iddo yn ei lythyron fynegi ei fod yn ei fwriadu wneuthur) y defnyddiai ei allu gyda'r ustusiaid, na chae ddiange oddiyno yn fyw. Dywed Balsec, a Grotius hefyd, iddynt weled llythyr o waith llaw Calvin ei hun, ymha un y dywedai, "os byth y deuai yr *heretic* hyn i'w law ef, y trefnai ef y costiai ei fywyd iddo." Yn anffortynus syrthiodd Servetus i ddwylaw Calvin, a chymmerodd yntau ofal neillduol i wirio neu i gyflawni ei fygythiad gwaedlyd ; ac ymorfoleddodd fyth wedi hyny, fel yr ymddengys, o herwydd iddo wneuthur felly, Dywed Voltaire am lythyr yn llaw-ysgrifen Calvin, a gedwir yn awr ynghastell Bastic Roland gerllaw Montelimar. "Y mae wedi ei gyfeirio, meddai ef, at y Marquis de Poet, canghellydd Brenin Navarre, dyddiedig Medi 13, 1561," a chynnwysa y geiriau hynod hyn :—"Anrhydedd, gogoniant, a chyfoeth, fyddo gwobr dy lafur ; ond uwchlaw y cyfan, na fetha i ryddhau y wlad o'r dyhirod penboeth (*zealous scoundrels*) sy'n cynhyrfu y bobl i wrthdroi yn ein herbyn. Dylai y fath anghenfilod (*monsters*) gael eu llwyr ddifetha, fel y difethais i Michael Servetus yr Yspaenwr." Fel yna y teimlai ac y dywedai John Calvin enwog. T. Evans.

(*I'w barhau.*)

Pan fyddo dynion yn myned yn rhinweddol yn eu hen ddyddiau, y maent yn gwneud gberth i Dduw o weddillion y diafol.

MYGLYS: NEU OES Y CHWIFFIO.

Bydd ychydig nodiadau ar y testun rhyfedd hwn i ffurfio digrifwch, a gobeithiaf y bydd yn was i dymer dda yn absenoldeb ei well. Y mae yr arferiad o chwiffio yn ddrwg, er hyny y mae ynddo ryw gymdeithasgarwch, fel nad yw dynion ond anfynych yn ymrafaelio â phibelli yn eu geneuau.

Dygwyd i mewn chwiffio yn yr haner olaf o'r 16eg canrif. Cynghorfa Trent a eisteddai—ein Protestaniaid yn gosod eu seiliau i lawr, a holl genedlaethau Ewrop yn dechreu ar y gelfyddyd newydd o argraffu eu gwrthddadleuon ar bob testun dadleugar, a chylchanfon eu tybiau, fel yn raddol y caent oleuni arnynt. Gyda hyn gwnaeth athroniaeth naturiol ledu ei changenau, ac ymraniad ddosbarthu ei hun yn bleidiau a sectau aneirif: ïe, dyma'r pryd y cafodd chwyn y felltith ei drosglwyddo o'r byd newydd drosodd yma,—y cwsgbair chwerw, yr hwn oedd wedi ei benu i fod yn brif chwareuwr ar chwareufwrdd yr amserocdd dyfodol; y chwynyn hyn mewn gwirionedd sydd un o arwyddion yr amserau, yn fwy felly nag un seren gynffonog na goresgynwr, yn fwy nag un athronydd enwog na dadguddiad celfyddgar; yn fwy na'r Palas Gwydr ei hun, oblegid ei fod yn fwy cyffredinol. Pwy na welodd bibell chwiffio neu *cigar*? Pwy sydd heb orfod anadlu yn nharth y chwynyn llosgedig? Pa blentyn ar lawr cred na wyr ei enw cyn braidd wybod enw y ci a'r gath? Pa mor gyflym y treiddiodd i bob congl a chilfach cymdeithas! Lle nad yw llyfrau na chylch-bapyrau etto yn wybyddus, yno mae'r bibell yn roesawedig. Lle nad yw darllen nac ysgrifenu wedi ei ddysgu, y mae y gelfyddyd o chwiffio yn hollol wedi ei chyrhaedd. Gwyr yn ymhyfrydu ynddo, y gwragedd yn cyd-ddwyn ag ef, a'r beehgyn yn ei olygu fel y prawf cyntaf o wroledd—ac eilun yn lle cern-dusw yn moreu eu bodoliaeth.

Ac etto y peth ei hun sydd yn gyffyr atgas, ac yn wenwyn ansawrus. Yr arferiad o'i ddefnyddio sydd bob amser yn gwrthryfela yn erbyn natur synnl. Un pwff a glafycha y plentyn, pwff neu ddau yr anghyfarwydd. Gwneir ymdrechiadau caled gan lawer cyn cyrhaedd blas atto; ac nid yw'r blas yn naturiol i ddyn na dynes. Cywreinrwydd yn unig a ddyfeisiodd ac a blanodd y fath nwydd; ac y mae dynion yn ymhyfrydu ynddo, am y rhodda iddynt rywbeth i'w wneud mewn mynydau o hamdden: oblegid pan na fo dim i'w wneud gan wr, gollynga ei ên a chysga: y mae pibell neu *cigar* yn cadw ei amrantau yn agored, a chyda y diogelydd hyn yn erbyn cwsg y mae yn teimlo cymhelliad ynddo i feddwl ac ymddiddan: a thyma, feddyliwyf, yw'r oll o'r dirgelwch sydd yn yr ymdynfa at chwiffio. Mae yn arferiad ddrwg, ac yn cael ei fwyth-foddio gan ddynion esgeulus mewn oriau segur, a chan ddynion pryd-olygus a dyfeisgar, ac yn fwyaf anghymedrol gan bobl o ysbrydoedd meistrolaidd a pherchenogwyr arian, ond heb orchwyl caethwasaidd.

Mae'r holl fyd gwybyddus yn chwiffio. Yn China chwiffiant gwsglys *(opium)*, ac yn Ewrop ac America, a'r rhan fwyaf o Asia, chwiffiant fyglys. Y cysglys ydyw'r cwsgbair mwyaf breuddwydiol, a thyma ydyw nodweddiad penaf y bobl a'i defnyddiant ef; cenedl o freuddwydwyr yw y dwyreinwyr oll; pobl y gorllewin ydynt arweinyddion gwareiddiad. Y myglys wneuthurwyr sydd yn cael y flaenoriaeth ar lechres y chwiffwyr. Os chwiffio sydd raid i ni, bydded i ni ddefnyddio'r *Nicotian*, er mor chwerw a chlafychus yw y ddeilen. A pham na wnawn ni chwiffio yn gystal ag eraill?

Os ydyw'r holl fyd yn pwffio ac yn pwho, pam na wnawn ninau? Bydded i ni gymeryd *cigar*, gael gweled a fydd yn gymhorth i ni feddwl ychydig.

Cymeryd Cigar.

Cymeryd mwg!—y peth sydd yn eich meddwi ar y cyntaf a'ch clafycha yn y diwedd! Pa faint o bethau sydd yn y byd yma yn gyffelyb iddo,—'rwyf fi'n rhyfeddu! (Pwh.) Llawer o athronyddion cleifion oeddwn yn adnabod yn fy nydd, llawer o ddyngarwyr y byd, y rhai a ddechreuasant yr yrfa o benboethder haelionus gyda llon'd genau o hyawdledd, gan ddiweddu gyda pwh a chegaid o fwg! A llawer morwyn lawen, yr hon sydd yn meddwi ei hun yn awr mewn nwyd dirion, a gaiff allan cyn hir nad yw cariad ddim yn fwy na *cigar* fwynaidd, yn clafychu y galon ac yn llosgi ei hun ymaith yn llwch a lludw. (Pwh.) Ddoe clywais a gwelais fam ddigllon yn clewtan yn annhymerus ei merch, yr hon oedd wedi tyfu i fyny, megis ffigod didda i ddim: anwyl fabi oedd y ferch hyny unwaith—babi hyfrydol; ond 'nawr mae *cigar* yr hen ladi wedi treulio allan—mae wedi cyrhaedd ei phen poethlyd hi. (Pwh.)

Un diwrnod canfyddais brydydd yn llosgi ei holl ysgrifwaith; a gofynais iddo p'odd y gwnai hyny, attebodd yn alarus iawn, "'Rwyf yn sal hollol wrth eu gweled." Druan tylawd! ond yr oedd wedi bod yn feddw yn gyntaf. (Pwh.) Yr wythnos ddiweddaf gelwais ar Spring y celfyddydwr, yr hwn oedd yn gweithio yn y modd mwyaf alaethus wrth ei angyffrediad hardd o "Gwymp Lucifer." Yr oedd gwedi blaen-fyrhau y droed dde, a'r olwg arni fel troed glwp, ac yn analluog i'w diwygio. Pa mor wresog y gweithiai y tair wythnos gyntaf, pan oedd y meddylddrych yn waedwyllt! ond mae'r cwbl i fyny gydag ef 'nawr. Y droed glwp a'i hanafodd, a'i droed ei hun a'i gorplena maes o law. Yr oedd hynyna yn bibellaid gref o ffwgws main. (Pwh—hw—hw.)

Mae pibellau a *cigars* Louis Napoleon yn tynu yn dda: pa fath safneidiau mawrwych y mae efe ar brydiau yn ei fwrw allan! Ni ryfeddwn pe gadawnai ei ewythr ar ei ol iddo flychaid o "Ymerawdwyr." Ac nid ydyw maerfau trefydd a dinasoedd Ffrainc ar ei ol. Fath bwff rhagorol a roddodd y cyfaill a ddarlienodd weddi yr Arglwydd iddo mewn Ffrancaeg amherodrawl, "O Dywysog, yr hwn a lywodraethi yn Ffrainc, anrhydeddus fyddo dy enw, deled dy ymherodraeth, &c. Yn sier yr oedd yn bibellaid o'r gydbleth gadarnaf: hyd yn nod ei harogl a glafychai olygydd y *Times*. (Pwh.)

Pob dyn a chwiffia, a phob dynes hefyd, a'r henafgwyr hefyd a chwiffiant yn ol eu dull eu hunain. Beth arall a allasai yr hen ddoethawr fod yn ei wneuthur ond cymeryd chwiff, pan yr ysgrifenodd y geiriau cofiadwy a mynych-adroddol hyn, "Yna yr edrychais ar fy holl weithredoedd a wnaethai fy nwylaw, ac ar y llafur a lafuriais, ac wele hyn oll oedd wagedd a gorthrymder ysbryd, ac nid oedd dim budd dan yr haul." (Pwh.)

A ninau y presenolion a chwiffiwn yn wrol yn ein harddull ni; ac yn yr amseroedd dealiawl hyn rhoddwn ein barnau parchus a phersonol ar bob testun oddiar a than yr haul—o'r bydysawd sydd ry cang i gael ei weled, i lawr at yr elfyn sydd ry ddistadl i'w ganfod. (Pwh.)

(I'w barhau.)

RHESWM A CHREFYDD.—Rhif. II.

(Parhad o tudal. 231.)

Gelwir yr Ysgrythyrau yn gyffredin, "Y Dadguddiad Dwyfol"—*Datguddiad* gwedi ei roddi gan Dduw. Yr ydym gwedi dangos yn barod i fod yn rhaid i holl addysgiadau y Gair Dwyfol fod yn *rhesymol*, neu yn berffaith ddealladwy i greaduriaid rhesymol Duw. Mae holl waith Duw yn berffaith; ac os cydnabyddir fod Duw wedi rhoddi Datguddiad i ddyn, y canlyniad anocheladwy yw, fod y Datguddiad hwnw yn *berffaith*. Ac os ydyw y Datguddiad hwn yn berffaith, nis gall gynnwys dim nad yw yn amgyffredadwy gan Reswm—nis gall gynnwys dim yn groes i, neu uwchlaw Rheswm.

Ymofynwn, yn awr, gyda phob difrifoldeb, Beth mae'r Datguddiad Dwyfol yn ddatguddio? 1. Am *Dduw*. Mae'n datguddio yn y modd mwyaf eglur ac amlwg mai "*Un Duw sydd*." Mae holl iaith yr ysgrythyr mor oleu a diamheuol ar y pwnc hwn, fel nad oes neb erioed gwedi beiddio ei wadu. Er erwydro i eithafoedd tywyllwch ac afresymoldeb, mor gryf yw iaith yr holl ysgrythyr ar y pen yma, fel mae'n rhaid dyfod yn ol a chyfaddef mai "Un Duw sydd." Fe haera Credo Athanasius, yn y modd mwyaf anystyriol a hunanol, "Mae'r Tad yn Dduw, mae'r Mab yn Dduw, ac y mae'r Ysbryd Glan yn Dduw;" (erbyn i'r geiriau gwrthun ac anysgrythyrol uchod gael eu hadrodd, dacw lais Rheswm a Datguddiad yn gorfodi chwanegu,) "ac etto nid y'nt dri duwiau, ond *Un Duw*."

Mor gryf yw sail Undodiaeth, neu'r athrawiaeth mai "Un Duw sydd"! Pe bai dynion gwedi cadw wrth iaith yr ysgrythyrau, ni fuasai yn bosibl iddynt gyfeiliorni mewn perthynas i'r athrawiaeth ogoneddus hon. Gan y cyttuna pawb, mewn geiriau, mai un Duw sydd, nid yw yn angenrheidiol chwanegu dim yn bresennol ar y pen yma.

Bydd rhywun yn barod i ofyn, "Beth am y *Drindod?* Mae'r Drindod yn cael ei hystyried o'r pwys mwyaf gan y rhan amlaf o lawer o Gristnogion y byd." Ni cheir cymmaint a'r gair *Trindod* tu fewn i'r Bibl! Ac os na cheir y gair Trindod tu fewn i'r Bibl, mae'n debygol iawn na cheir yr *athrawiaeth* o drindod yno chwaith. Nid oedd eisiau'r *gair* Trindod ar ysgrifenwyr y Bibl, oherwydd ni wyddent ddim am yr athrawiaeth. Cyn gynted ag y *dychymygwyd* yr athrawiaeth, fe ffurfiwyd y gair! tua diwedd yr ail ganfed!!

Ond tybiaf y clywaf ryw Drindodwr ffyddlon a gwresog yn cyfodi ei lais yn uwch nag arferol, "Dim o'r Drindod yn yr ysgrythyrau?—Ni chlywais y fath haeriad erioed o'r blaen! Ai gwir yw nad yw'r gair i'w gael yn y Bibl? Pe y credwn hynny, ni soniwn am drindod byth mwyach." Nis gallaf wneuthur yn well, cyn myned ymhellach, na gosod ger bron y darllenydd weddi y duwiol Dr. Watts ar Dduw, am gael rhyw oleuni ychwanegol ar y pwnc hwn (sef *tri* yn *un*), gan nad oedd dim yn y datguddiad dwyfol yn ei alluogi ef i gael un meddwl am yr athrawiaeth.

Gweddi Dr. Watts.

"Pe buaset, O Dad trugarog, gwedi hysbysu imi, mewn rhyw le, yn dy air, nad yw'r athrawiaeth ddwyfol hon (y Drindod) i gael ei deall gan ddynion, ac etto dy fod yn gofyn iddynt i'w chredu, mi a ddarostyngwn bob chwant-ymchwiliad *(curiosity)* i ffydd; ac a berwn, hyd eithaf fy ngalluoedd,

fy nychymygion crwydredig ac ammheus i ufuddhau i gyfarwyddiadau pur a doeth dy air. Fy nghydwybod yw'r goleuni naturiol goreu a roddaist i mi; a chan dy fod gwedi rhoddi i mi yr ysgrythyrau, mae fy nghydwybod yn fy annog i chwilio'r ysgrythyrau, er cael allan y gwirioneedd a bywyd tragywyddol! Yr ydwyt yn fy nysgu i 'brofi pob peth a glynu wrth yr hyn sydd dda.' Yn ddiau mi a ddylwn adnabod y Duw yr ydwyf yn addoli, pa un ai *Un Bod* pur a digymysg ydwyt, neu ynte duwdod triphlyg *(threefold deity)* yn cynnwys y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan.

"Anwyl a bendigedig Dduw! pe buaset gwedi gweled yn dda, yn rhyw fan yn yr ysgrythyr, i nodi allan imi pa un o'r amrywiol syniadau am y Drindod fendigaid, ymhlith y pleidiau ymrysonedig o Gristnogion, sydd *wirioneddol*, Ti a wyddost gyda pha fath sêl, boddlonrwydd, a llawenydd, y buasai fy nghalon ddiragfarn i ymagor er derbyn a chofleidio'r amlygiad dwyfol. Pe buaset gwedi dywedyd wrthyf yn eglur, mewn rhyw adnod unigol, y fod Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan, yn dri gwirioneddol a gwahanol bersonau, ni fuaswn gwedi gadael fy hun i ymddyrysu mewn cymmaint o ammheuon, ac i gael fy ngofidio gan y fath ofnau cryfion rhag cymmeryd fy arwain gan wag ddychymygion o waith dynion yn hytrach na chan athrawiaeth ddwyfol. Neu pe buasai yn rhyngu bodd i Ti i fynegi a chynnwys yr athrawiaeth hon (y Drindod) yn yr amryw wasgaredig barthau o'th lyfr, lle y gallai fy rheswm a'm cydwybod gael allan, yn rhwydd, yr athrawiaeth; mi a arferwn, gyda phob llawenydd, fy holl bwerau rhesymol, i eithafoedd fy ngallu oedd, er cael allan y meddwl hwn a'i argraffu ar fy enaid. Yr ydwyt gwedi fy nysgu, O Dad sanctaidd, trwy dy brophwydi, y byddai ffordd sanctaiddrwydd, yn amser yr efengyl, neu dan deyrnasiad y Messiah, y fath fel nas gallasai yr halogedig fyned ar hyd-ddi, ac hefyd y fath nas gallasai y sawl a'i rhodient, pe byddent ynfydion, gyfeiliorni! Yr ydwyt hefyd wedi galw y 'tlawd a'r anwybodus' i wybodaeth o honot ti dy hun ac o'th Fab.—Ond pa fodd y gall creaduriaid mor *wan* dderbyn athrawiaeth mor ddieithr, mor anhawdd ac mor dywyll a hon (y Drindod), wrth ymdrechu esbonio ac amddiffyn pa un mae llawer o ddynion dysgedig a duwiol gwedi colli eu hunain yn eithafoedd afresymoldeb a thywyllwch! A ydyw yn gredadwy i fod yr athrawiaeth dywyll a dyrysedig o fod tri o bersonau gwirioneddol yn gwneuthur i fynu *un Duw*, yn cynnwys rhan mor angenrheidiol a phwysig o'r grefydd Gristnogol, yr hon a ddarlunir yn yr Hen Destament a'r Newydd fel athrawiaeth ag sydd eglur a hawdd ei deall, fel nas gall y gwanaf o greaduriaid Duw gyfeiliorni mewn perthynas iddi?"

Dyma weddi a phrofiad un o amddiffynwyr cryfaf y Drindod! (Gwel *Watts's solemn address to the great and blessed God.)*

Tebygol yw na chafodd y weddi hon ei hatteb, gan fod Duw wedi rhoddi digon o oleuni yn Natur a'r Dadguddiad i ddysgu pob synwyrol nas gall y fath frawddeg (tri yn un) fod yn wir.

D. Lloyd.

Na syrthied cwsg ar dy lygaid nes y byddot wedi adolygu dair gwaith oruchwylion y dydd a aeth heibio. Ym mha le yr wyf wedi troi oddiwrth uniondeb? Beth wyf wedi bod yn wneuthur? Pa beth wyf wedi adael heb ei wneuthur a ddylaswn wneuthur? Gan ddechreu gyda'r weithred gyntaf, cerdd yn y blaen; ac yna, am y drwg a wnaethost bydd ofidus, ac am y da ymorfoledda.—Pythagors.

Gohebiaethau

CYWIR DDARLLENIAD 1 TIM. III., 16.

Llythyr VIII. *Mr. Evans—Sylwadau ar Lythyr* III. *Mr. Jones yn yr Annibynwr.*

(Parhad o tud. 25.)

4. Athanasius.—Y mae Mr. J. yn dyfynu y llythyr at Serapion, "Ac yn ddiddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Byddai hyn i'r pwrpas etto, oni b'ai fod anlwc Mr. J. gymmaint fel nad yw'r gair Duw ddim yn y llawysgrifau o'r llythyr hwn; y mae yn yr argraffiadau o'i waith, ond beth sydd a fyno â'r pwngc?—Dywed Dr. Davidson, "Dernyn arall yw, '*Echousi gar apostolon,*' *&c.* Ond y mae y rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn gadael allan y dernyn hwn. Mewn un llawysgrif y mae ar ymyl y ddalen. Rhaid gan hyny ei ystyried yn esboniad rhyw un arall, ac nid eiddo Athanasius ei hun. Darfu i Henderson gadw o'r golwg y ffaith fod y rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn gadael allan y dernyn." Bibl. Crit., 841—2.

Y mae Griesbach yn dywedyd, "Y mae rhai a arferid eu dyfynu dros *Theos* naill ai'n cael eu dwyn ymlaen ar gam, neu ni allant gael eu gosod tuhwnt i ddadl. Er enghraifft, Athan. ad Serap. ep. 4 et de Incarn. t. 3 p. 33. Ond yn y man blaenaf (4ydd llythyr at Serapion) y mae y rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn gadael allan y geiriau a arferid yma." Gr- Test. in loco.

Scott Porter.—"Y mae Mill yn dyfynu dros *Theos* ran o 4ydd llythyr Athanasius at Serapion (Vol. II. p. 706), ac un arall yn y Traethawd ar Ymgnawdoliad y Gair, a briodolir iddo. Ond dywed y *Benedictine editors* na chawsant y dernyn blaenaf ond mewn un llawysgrif yn unig o'r holl rai ddarfu iddynt gydmaru, ac yn hono ar ymyl y ddalen yn unig, a'u bod hwy yn ystyried y geiriau fel eglurhad rhyw un arall yn hytrach na geiriau Athanasius ei hun, ac yn ganlynol cauasant hwynt rhwng cromfachau." Beth yw lliw eich wyneb chwi 'nawr, Mr. J., os medrwch gywilyddio? Cannad beth yw, wele Athanasius etto wedi ymadael â'ch cyfeillach. Peidiwch ymddibynu gormod ar Henderson, Mr. J. Ond rhaid i mi frysio. Gan ein bod yn tynu at ddiwedd y 4dd canrif; gallaswn adael y tadau a ganlyn i Mr. J., gan na fyddai eu tystiolaeth yn croesi yr hyn a ddywedodd Griesbach, "Nad oes un dystiolaeth dros *Theos* cyn diwedd y 4ydd canrif." Gan hyny ni wnaf ond sylwadau byrion arnynt.

5. Gregory Nyssen.—Dywed Dr. Davidson am y dyfyniadau y cyfeiria Mr. J. attynt, "Mae y darnau hyn yn bendant yn dangos mai *Theos* oedd gan Gregory, pe gellid ymddibynu ar y copiau argraffedig o'i waith. Ond ni ellir ymddibynu dim arnynt; yn neillduol gan ei fod yn darllen yn wahanol mewn manau eraill, *hos* yn debygol, neu *ho* fel y tybia eraill." Bibl. Crit. 842.

6. Chrysostom.—"Yn yr un modd, ebe Dr. Davidson, y mae'n eithaf tebygol fod Chrysostom yn darllen *hos*, er fod yr holl gyhoeddiadau argraffedig o'i waith yn ei wneud i ddarllen *Theos*. Y mae y golygwyr wedi ymyraeth â'i destun; fel yr oedd yn beth cyffredin. Y mae wedi dioddef yn fawr yn ei ddyfyniadau o'r Ysgrythyrau; gan fod ei *homilies* wedi eu copio mor fynych. Gellir dangos yn mhob modd nad oedd Chrysostom yn darllen *Theos* megis y gwneir ef i ddarllen yn y cyhoeddiadau argraffedig o'i waith. Ni ellir ymddibynu dim ar *eiriau dyfynedig y testun*, gan fod y testun hwnw, gwasgaredig trwy ei esboniadau, yn cael ei newydd-ddullio (*modernized*) yn barhaus. Felly tra yr ydym yn darllen yn argraffiad Montfaucon o'i waith, *Eis heteron anagei to pragma, legon, Theos ephanerothé en sarki*, &c., y mae yr un dernyn yn sefyll yn Craner's Catena, *Eis heteron anagei to pragma hoti ephanerothé en sarki*, &c. Yma y mae *Theos* wedi tarddu allan o *hoti*. Ni ddylai Chrysostom o hyn allan gael ei ddyfynu dros *Theos*. Ac os na ddarllenai felly, y mae'n rhaid mai *hos* neu *ho* a ddarllenai; y blaenaf yn debygol." Bibl. Crit., 834.

7. Cyril o Alexandria.—Y mae Dr. Davidson, ar ol gwneud dyfyniadau o waith Cyril, yn myned ymlaen i sylwi ar y rhan hyny o'i araeth gyntaf, a ddyfyn-

odd Mr. J. "Yma etto, ebe fe, y mae Cyril wedi cael ei gyfnewid; oblegid y mae'r cyssylltiad ei hun yn profi nad oedd efe yn darllen *Theos*, ond *hos*. Y mae Aubert yn dilyn llawysgrifau wedi eu llygru, yn y man hwn etto, fel y dangosodd Griesbach. O hyn allan na fydded i bleidwyr *Theos* ddwyn Cyril o'u tu; oblegid y mae'n amlwg ei fod ef yn erbyn y darlleniad hwnw. Gellir ei ddyfynu dros *hos*. Y mae yr argraffiadau o'i waith yn dangos *Theos;* ond oddiwrth lawysgrifau a phrofion eraill, yr ydym yn casglu fod ei iaith ef wedi ei newid. Os oedd yn darllen *Theos*, paham na chyfeiriodd at 1 Tim. iii. 16 yn erbyn yr ymerawdwr Julian, yr hwn oedd yn dywedyd nad oedd Iesu byth yn cael ei alw yn Dduw gan Paul." Ni chyffyrddodd Mr. J. â'r anhawsdra hwn. Ai rhy anhawdd oedd ef, Mr. J.? "Ni allasai, ebe Dr. D., esgeuluso darlleniad gymmaint i'r pwrpas. Er hyny nid yw yn appelio atto yn erbyn Nestorius, yr hyn rhaid i ni gredu a wnaethai pe darllenasai ef, oblegyd buasai yn effeithiol iawn yn erbyn ei wrthwynebwr mawr. Ac os *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol, pa fodd y mae'n bod na ddarfu iddo gael ei ddyfynu gan y tadau yn erbyn yr Ariaid, ar ol dechreu y ddadl â hwynt." Os yw Mr. J. am ragor, darllened Griesbach's Symbol. Crit. Vol. I. pp. 43—54, os yw'r llyfr yn ei feddiant, fel y gellir meddwl ei fod wrth ei glywed yn siarad, a chaiff yno resymau hyd at ddigon, hyd yn oed iddo ef; ond os nad oes rhagor yn ei feddiant nag a gafodd yn Henderson, nis gall gyflawni fy nghais; ond hyn a ddywedaf wrtho, os y pery yn ei gyndynrwydd, caiff atteb rhesymau Griesbach, neu beidio, os iechyd a gaf. Y mae Scholz hefyd yn erbyn Mr. J. yma; ydyw yn wir. Y mae efe yn dywedyd, yn ngeiriau Griesbach, mai *ar gam* y dygid Cyril dros Theos!! Rhagor etto.

8. Theodoret.—Mor belled ag y gallaf fi farnu, y mae Mr. J. o'r diwedd wedi cael gafael mewn un tyst, a hwnw yn y pumed canrif, i'r pwrpas. Y mae Griesbach yn dywedyd ei fod yn darllen Theos.

9. Euthalius yw'r olaf.—"Ac ni all dim pwys gael ei osod, ebe Dr. Davidson, ar dystiolaeth Euthalius dros Theos, er y gellid meddwl felly oddiwrth Henderson" (a Mr. J. ar ei ol ef) "yn ei ddwyn ymlaen. Y mae Euthalius, ebe fe, (sef Henderson) yn yr un modd yn darllen *Theos ephanerothé en sarki,* Duw a ymddangosodd yn y cnawd; ac y mae'n galw y bennod neu'r adran lle y mae'r geiriau i'w cael, *peri Theias sarkoseos,* ar yr ymgnawdoliad dwyfol. Gellid casglu yn naturiol oddiwrth hyn, fod Euthalius wedi dyfynu'r geiriau yn bendant â Theos; ond nid yw yntau ond yn unig yn rhoddi *headiug* yr adran lle y mae'r geiriau, y *title peri Theias sarkoseos,*— Ar yr ymgnawdoliad dwyfol; yr hyn a allasai wneud yr un cystal pe *hos* neu *ho* oedd y darlleniad; gan fod y tadau yn fynych yn cymhwyso *y dirgelwch at berson Crist.* Felly y mae tystiolaeth Euthalius yn darfod bod yn bendant na gwerthfawr ar y pwngc. Nid yw ond casgliad, a hwnw yn ansicr, fod Theos yn ei destun Groeg." Bibl. Crit. 800. Y mae Scott Porter hefyd yn dywedyd yr un peth. Felly gwel Mr. J. bellach nad gwiw iddo ymddiried gormod, na dim yn wir i awdurdod Henderson. Y mae wedi cael ei dwyllo ganddo yma etto; a chanlynodd ef yn ffyddlon i ddywedyd fod "Duw a ymddangosodd yn y cnawd," yn Euthalius, pryd nad oes rhagor yno na'r heading, 'Ar yr ymgnawdoliad dwyfol." Ie, Mr. J., dyna i gyd sydd yn Euthalius. Eich anwybodaeth chwi oedd yr achos o'r camsyniad, cannad beth oedd yr achos i Henderson ei wneuthur. Wele ni yn awr wedi chwilio eich tadau oll, ac nid oes yn aros yn eich meddiant ond un o'r naw, a hwnw yn y pumed canrif, dros Theos, Duw. Felly nid oes achos gennych i ymffrostio llawer yn hynyma etto. Cawn weled yn fy llythyr nesaf beth yw tystiolaeth y tadau dros fy narlleniad innan, sef *ho,* yr hyn. Dyma wyth o gamsyniadau o'r bron, at yr amryw eraill i'w haddef, Mr. J.

Paham na ddarfu i Mr. J. sylwi ar ddistawrwydd Cyril o Alexandria, pan yr oedd Julian yn dywedyd nad oedd Paul byth yn galw'r Iesu'n Dduw? Peidiwch *slinko* fel yna heibio i anhawsderau. At ddistawrwydd Cyril, fel un, yr oeddwn yn cyfeirio pan ddywedais fod eu tystiolaeth ddistaw yn brawf nad oedd y gair Duw yn eu hysgrifau hwynt. Yn wir, yr oedd yr adnod hon yr un mor berthynasol yn erbyn yr Ariaid a'r Nestoriaid a llawer o adnodau a ddygai'r Iawngred; ac nid wyf yn gweled etto nad oedd, ar

dir trindodiaeth, yn lled berthynasol i'r *homousios* hefyd. Dywedai yr Ariaid mai bod creuedig oedd Crist, a'i fod o ran ei hanfod yn *homoiousios*—yn gyffelyb sylwedd, nid trwy natur ond rhagorfraint, ac nid yr un sylwedd a'r Tad. Os oedd Duw ei hun wedi ymddangos yn y cnawd, yr oedd yn sicr o fod yn *homousios*, ac nid *homoiousios*, yr *un* ac nid *cyffelyb* sylwedd ag ef ei hun. Felly gallasai yr adnod mewn dadl, os oedd y gair Duw ynddi, gael ei dwyn ymlaen cystal, os nid gwell, nag un arall a ddygid yn erbyn yr Ariaid, ar dir trindodiaeth.

O. EVANS.

Llythyr IX. *Mr. Evans.*

Y TADAU.

MR. GOL.,—Af yn awr at dystiolaeth y tadau dros *ho* neu *hos*.—Y tadau Groegaidd. Rhoddaf rai dyfyniadau o'r tadau Apostolaidd, fel eu gelwir, llawn mor awdurdodol ar y mater a thystiolaeth Ignatius a ddygodd Mr. J. ymlaen.

I. Barnabas.—Ep. cap. v. p 7, Hefele's edition. "Gan hyny i hyn y daeth Mab Duw yn y cnawd," &c. Yma Mab Duw, ac nid Duw, sydd wedi dyfod yn y cnawd. Etto cap. vi. p. 9. "Gan hyny pan oedd ar ymddangos yn y cnawd a dioddef, rhag ddangoswyd ei ddioddefaint ef." Efe ac nid Duw sydd yma. Cap. vi. pp. 9 & 10.—"Dysgwch beth y mae'r ysgrythyr yn ddywedyd, gobeithiwch yn yr Iesu [ebe hi] sydd ar ymdddangos i ni yn y cnawd." Iesu ac nid Duw sydd yma etto. Cap. xxii. p. 27.—"Wele drachefn, Iesu nid mab dyn ond mab Duw wedi ymddangos mewn cysgod ac yn y cnawd." Nis gallasai iaith mor debyg a hyn i eiddo Paul lai na dwyn i gof yr ysgrifenydd y gair mwyaf pwysig oll, pe gwyddai am dano; gan hyny, nid darlleniad yr ysgrifenydd hwn oedd *Theos*, Duw.

II. Ignatius.—Y mae tystiolaeth yr ysgrifenydd hwn, pwy bynag oedd, yr un cymaint o werth i mi ag i Mr. J., a dim yn rhagor. Ep. ad Magnes. p. 136., Hefele's ed.—"Eich cynghori yr wyf ar fod o honoch yn ofalus i wneud pob peth mewn undeb; yr esgob yn blaenori yn lle Duw, yr henuriaid yn lle senedd yr apostolion, a'r diaconiaid, i mi y melusaf, a chanddynt wasanaeth Iesu Grist, yr *hwn* oedd gyda'r Tad cyn yr oesoedd, ac yn y diwedd a ymddangosodd." Cap. viii. p. 137.—"Oblegid un Duw sydd, yr hwn a ddangosodd ei hun trwy Iesu Grist, yr hwn yw ei Air tragywyddol." Y mae yma syniad lled debyg i'r hyn a osodais i allan yn fy mhregeth. Ep. ad Trall. cap. ix. p. 147.—Yn y bennod hon y mae'r ysgrifenydd yn dywedyd fod Iesu Grist o had Dafydd; o Fair; wedi ei eni mewn gwirionedd; ei fod yn bwyta ac yn yfed mewn gwirionedd; iddo ddioddef mewn gwirionedd dan Pontius Pilat; iddo gael ei groeshoelio mewn gwirionedd; iddo farw; i nefolion, daearolion, a thanddaearolion ei weled ef; iddo gael ei gyfodi oddiwrth y meirw mewn gwirionedd, gan i'w Dad ei gyfodi ef. Ond gan nad oes yma gyfeiriad pendant at eiriau Paul, nid wyf yn ei chyfieithu, er y gallesid dysgwyl ymhlith yr amgylchiadau hyn, ryw son am yr amgylchiad mwyaf pwysig oll, sef fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd.

III. Y llythyr at Dionetus. Y mae Hefele yn dywedyd fod llawer o feirniaid dysgedig iawn o'r farn mai Justin Martyr ysgrifenodd y llythyr hwn; ac fod eraill, nid ychydig, yn barnu ei fod yn llawer henach na Justin. Cymered y darllenydd hyn am ydyw o werth, af at y dyfyniad. Cap. xi. p. 233, Hefele's ed.—"O herwydd hyn anfonodd ei Air, i ymddangos yn y byd; *yr hwn* a ddirmygwyd gan y bobl, a bregethwyd gan yr apostolion, a gredwyd gan y cenedloedd." Y mae yma gyfeiriad amlwg at eiriau'r apostol, ac eto y mae'r peth mwyaf pwysig yn eisiau. Pa fodd y gallasai hyn fod, os oedd yn gwybod am y darlleniad cyffredin, Theos, Duw? A wnai Mr. J. gyfeirio mor amlwg a hyn at amgylchiadau a nodir yn yr adnod, heb son dim am yr hyn sydd fwy o bwys na'r cwbl yn ei olwg ef? Y dyfyniadau canlynol ydynt allan o Dr. Davidson's Bibl. Crit. pp. 831—838.

IV. Cyril o Alexandria.—"Yr ydych yn cyfeiliorni, heb wybod yr ysgrythyrau, nac yn wir ddirgelwch mawr duwioldeb, hyny yw Crist, *yr hwn* a ymddangosodd yn y cnawd," &c. Ac ychydig ar ol hyn, "Oblegid yr wyf yn tybied nad dim arall yw dirgelwch duwioldeb ond ein Logos ni ei hun oddiwrth Dduw Dad, yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd," &c. Y mae y dyfyniadau hyn yn ymddangos i mi yn

ffafriol i *ho*, ac nid *hos* fel y dywed Dr. Davidson. Y mae un peth yn amlwg, mai'r dirgelwch, yn ol Cyril, sydd wedi ymddangos yn y cnawd, ond ei fod yn meddwl Iesu Grist neu'r Logos wrth y dirgelwch hyn. Pe buasai Cyril yn darllen *hos* yn ei destun gosodasai y geiriau eglurhaol ar ol *hos*, ac nid o'i flaen fel y mae yn awr; fel hyn, "Nac yn wir ddirgelwch mawr duwioldeb, yr hwn, hyny yw Crist;" ond gan iddo eu gosod ar ol *mystêrion*, yr oedd yn rhaid iddo arfer *hos* i gyduno â *christos*. Y mae Cyril hefyd yn darllen *hos* yn ei esboniad o'r ail Anathemat., er mai Theos sydd yn Aubert, y mae Griesbach a Wetstein, medd Dr. Davidson, a Scholz hefyd, meddaf finnau, wedi profi yn eglur nad Theos oedd darlleniad Cyril. Felly hefyd *hos*, ac nid *Theos*, sydd yn y dernyn ar y Ffydd Gywir, yr hwn a ddyfynodd Mr. J. dros Theos, fel y mae Griesbach wedi profi, medd Dr. D., ïe, a meddaf finnau hefyd yn hyderus, ïe, a Scholz gyda hynny. Y mae Dr. D. yn ychwanegu, "Na foed i bleidwyr Theos o hyn allan ddwyn Cyril o'u tu; oblegid y mae ef yn amlwg yn erbyn y cyfryw ddarlleniad:" pe amgen, paham na fuasai yn dwyn yr adnod hon yn erbyn Julian? Yr wyf yn galw sylw Mr. J. at y ffaith hon unwaith yn rhagor.

V. Y mae'n debygol, ebe Dr. Davidson, fod Clement o Alexandria hefyd yn darllen *hos*, nen *ho* fel yr ymddengys i minnau. Y mae yr hyn a ganlyn oddiwrtho yn yr Œcumenius, "O ddirgelwch; gwelodd yr angylion Grist gyda ni." Y mae'r geiriau amgylchiadol i'r dernyn hwn, ebe Dr. Davidson, yn dangos yn eglur nas gallasai Clement ddarllen Theos. * * * "Y mae'n wir, ebe fe, nad yw'r geiriau a ddyfynwyd ddim yn *penderfynu yn hollol*, pa un ai *hos* neu *ho* a ddarllenai; y maent yn ffafrio'r blaenaf.

VI. Origen.—"Os dywedir i'm Iesu gael ei gymeryd i fynu mewn gogoniant.' Mewn gwaith arall gwneir i'r un ysgrifenydd ddywedyd yn nghyfieithiad Lladin Rufinus, "Efe yr hwn a ddaeth yn y cnawd fel y Gair a ymddangosodd yn y cnawd, fel y dywed yr Apostol—'Efe yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd.'" Gan ddarllen *qui* yn lle *quia*. Contra. Celsum. Lib. III. sect. 33, Opp. Vol. I. Benedictine ed. p. 467.

VII. Y mae dyfyniad yn Lladin o waith Theodore Mopsuestia yn cael ei roddi yn ngweithredoedd Cymanfa Constantinople, yn cynwys y darlleniad *hos*.

VII. Y mae Jerome, ar Isaia liii. 11, hefyd o'i blaid.

VIII. Y mae Pseudo Chrysostom yn cael ei ddyfynu drosto.

IX. Chrysostom, gan nad yw'n darllen *Theos*, raid fod dros *hos* neu *ho*, medd Dr. Davidson.

X. XI. XII. "Yr oedd gan Liberatus, Victor a Hinemar, lawysgrifau yn darllen *hos*, yr hwn; neu o leiaf ystyrient y darlleniad *Theos*, Duw, yn ddiweddar, gan eu bod yn hacru mai Macedonius, yn nheyrnasiad Anastasius, yn nechreu y 6fed canrif, ddarfu droi *hos* i *Theos*." Pa un ai gwir yr haeriad hwn ai peidio, mae un peth yn amlwg, sef mai *hos*, yr hwn, ystyrient hwy y darlleniad cywir.

XIII. Gregory Nyssa.—"Y dirgelwch a ymddangosodd yn y cnawd; gan ddywedyd yn dda; hwn yw ein *Logos* ni.

XIV. Basil.—"Y dirgelwch mawr o herwydd i'r Arglwydd ymddangos yn y cnawd," &c. "Ymddangosodd ef yn y cnawd," &c. Y mae y ddwy dystiolaeth olaf, ebe Dr. Davidson, yn sicr yn ffafrio *hos*.

XV. Didymus.—"Yn ol yr hyn a ddywedwyd: ymddangosodd yn y cnawd." In 1 Joann. 4.

XVI. Theodotus.—"Yr Iachawdwr a ddisgynodd ac a ymddangosodd i'r angylion, a hwy a'i cyhoeddasant ef." Epitom, xviii. Vol. II. p. 97 3, in Clement's Works by Potter.

XVII. Nestorius.—"Yr hyn a genhedlwyd yn Mair . . . . . a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr yspryd." Ap. Arnob. Junior.

Wele ymron chwech tri o dystion; ac os oedd tystiolaeth tri thri yn safadwy, pa faint mwy safadwy chwech tri ond un? yn enwedig pan gofiom fod wyth o naw tyst Mr. J. wedi distewi neu droi yn ei erbyn ef.

Y Tadau Lladin.

Y mae genyf un sylw i wneud ar ymddygiad annheg Mr. J. a Henderson gyda golwg ar y tadau Lladin; sef eu cymyg twyllodrus i droi o'r neilldu dystiolaeth y tadau hyn, trwy ddangos fod dau o honynt yn anwybodus o'r iaith Roeg. Beth! a ydyw fod dau yn anwybodus yn profi fod pawb ymhob oes yn anwybodus o'r iaith hono? A raid i mi ddywedyd

wrth Mr. J. na fuasai llythyren yn y byd genym o waith rhai o'r tadau Groeg, oni bai'r cyfeithiadau sydd genym o honynt yn yr iaith Ladin; ac nid dynion anwybodus iawn allasai wneuthur hyn. "Mysterium neu sacramentum quod manifestatum est, &c.—Dirgelwch neu'r sacrament yr hyn a ymddangosodd, &c., sydd gan y tadau Lladin (ebe Dr. Davidson), er eu bod yn ei ddeall am Grist. Hilary, Awstin, Pelagius, Julian, Fulgentius, Idacius, Ambrosiaster (Hilary y diacon), Leo Fawr, Victorinus, Cassian, Gregory Fawr, Bede, Chrysologus, Martin y cyntaf, &c. Yn wir y mae'r holl dadau Lladin, oddieithr Jerom ag Epiphanius, dros *ho* y ganolryw." Felly wele bedwar ar ddeg o'r tadau Lladin, a gallesid ychwanegu rhai ugeiniau yn rhagor dros y darlleniad *ho*, yr hyn.

Felly, wele ni o'r diwedd mewn cyflwr i farnu ynghylch darlleniad cywir 1 Tim. iii. 16. Dros *Theos*, Duw, nid oes dim un llawysgrif hen o'r llaw gyntaf; hyny yw, hanner na'r 9fed canrif. Y cyfanswm sydd fel y canlyn, allan o list Henderson; a chofied y darllenydd fy mod yn rhoddi yr amser boreuaf, lle mae dau amseriad gan Henderson. Saith llawysgrif o'r 9fed canrif; un-ar-ddeg a deugain o'r 11eg canrif; deg o'r 12fed canrif; deunaw o'r 13eg canrif; wyth o'r 14eg canrif; wyth o'r 15fed canrif; pedair ar ddeg a deugain heb un oedran. Felly y mae dros *Theos* tua 167 o lawysgrifau o'r 9fed i'r 15fed canrif, oll yn rhy ddiweddar i fod o bwys yn y ddadl, ond fel profion cyfochrol yn unig. O'r cyfieithiadau nid oes ond tri, a'r rhai hyny yn ddiweddar, drosto. O'r tadau Groegaidd, dim ond un o'r rhai a ddygodd Mr. J. ymlaen sydd o'i du.

Dros y darlleniad *hos* y mae tair llawysgrif hen a thair diweddar, amryw o'r cyfieithiadau hen, fel eu deallir gan rai, a'r tadau Groegaidd yr un modd.

Dros *ho*, yr hyn,—un llawysgrif hen; un yn amheus: yr holl gyfieithiadau hen*af*; amryw o'r tadau Groegaidd, a'r holl dadau Lladin oddieithr dau neu dri. Oddiwrth hyn ymddengys i mi mai'r darlleniad *ho*, yr hyn, yw yr un cywir.

"Yn ol fy marn i, ebe Scott Porter, y darlleniad cywir yw *ho, yr hyn*. 1. O herwydd ei fod yn cael ei gynal yn well na'r darlleniadau eraill gan yr hen gyfieithiadau, y rhai ydynt dystion cryfach yma na'r llawysgrifau Groegaidd, gan nad oeddent mor agored i gyfnewidiadau damweiniol neu bwrpasol; oblegid y mae'r geiriau sy'n cyfatteb i *O*, neu *OC* a *OC*, (y rhai ydynt mor debyg i'w gilydd yn y Groeg,) yn hollol wahanol i'w gilydd yn y cyfeithiadau. 2. O herwydd, tra y mae'n rhoddi synwyr rhagorol iawn wrth ei ddeongli mewn cysondeb a llawer o fanau eraill yn ysgrifeniadau Paul, er hyny efe yw'r darlleniad tywyllaf; ac mewn gwir y mae wedi cael ei gamddeall, yn ol fy marn i, yn yr holl dadau a ddarllenent *ho*, yr hyn, ac etto a eglurent yr adnod fel yn cyfeirio at Grist. 3. Oherwydd gallasai y rhageuw gwrrywaidd *hos* gyfodi yn rhwydd odddiwrth y deongliad camsynied hwnnw; oblegid gallasai y copïwyr Groeg yn rhwydd ddefnyddio yr un *idiom* yma, gan eu bod yn deall *mysterion* fel enw personol ar Grist, a chan eu bod yn gyfarwydd â chael *neuter nouns* pan eu harferid i nodi allan personau, yn cael eu canlyn gan *masculine relatives*. "*Hos* NON *to rhéton* sed *to sêmainomenon* respicit," fel y sylwodd Porson gyda golwg ar y darlleniad hwn; cyfarwyddeb â'r *idiom* a ddadblygwyd fel hyn, yn ol fy marn i, fu'n achos o'r rhageuw gwrrywaidd, *hos*. Oddiwrth *hos* etto cyfododd *Theos*, yn y modd a nodwyd yn ein sylwadau ar y llawysgrifau Alexandraidd ac Ephrem, ynghyd a'r parch a ddangosai y copïwyr i esponiadau llawer o'r tadau ar yr adnod hon, y rhai a gamddeallasant hwy, fel y gwnaeth eraill wedi'n, fel yn arddangos eu darlleniad hwy o'r testun. *Yn ddiweddaf*. Oblegid fod yr awdurdodau dros *ho*, yr hyn, nid yn unig yn hen, ond yn deilliaw oddiwrth amrywiol wledydd a theuluoedd o'r testun. Os nad y darlleniad cywir ydyw, bydd yn anhawdd rhoddi cyfrif pa fodd y darfu iddo redeg dros *yr holl gyfieithiadau a arferid gan eglwysi Crist yn y Dwyrain a'r Gorllewin*, o'r amser boreuaf y cyfansoddwyd y fath gyfieithiadau; ac nid yn unig y rhai hyn, ond ysgrifeniadau cynifer 'ymhlith y Tadau', y rhai yn eu dydd oeddent amddiffynfeydd (*bulwarks*) y ffydd gatholig."

Gair wrth ddiweddu. Ymhell o gael fy mrawychu gan fygwthiadau hunanol Mr. J. y gwnaiff fy nilyn, canad pa lwybr a gymeraf, nes y dywedaf Paid, yr wyf yn galw arno unwaith etto i gadw ei air, a sylwi ar bob ymresymiad o'm heiddo,

pob awdurdod a ddygais ymlaen, pob dynoethiad o'i gollion ef, pob camgyhuddiad a wnaeth, ac addef yn deg fel dyn gonest a chywir ei ffaeleddau mawrion ac aml, neu brofi i'r gwrthwyneb. Ac wedi gwneuthur hyn, bydd groesaw iddo fyned i nithio fy ngwaith yn yr *Ymofynydd*. Nid gwaeth gwirionedd o'i chwilio. Gobeithio y caiff lawer o wenith pur, ac odid na chaiff beth us yn gymmysg. Ymaith a'r us gyda gwynt y nithiwr; eithr gofaled na sarno'r gwenith; onide, os byw ac iach fyddaf, ni chaiff ei waith yn rhad.

Y mae gennyf dri llythyr ymhellach yn barod; sef dau ar bedwerydd llythyr Mr. J., ac un ar ei Scholz ef; ond gan nad trefnus iawn yw sylwi ar esboniad adnod cyn penderfynu ei darlleniad, gorphwysaf yn bresenol er mwyn rhoddi cyfle iddo i atteb y sylwadau sydd o flaen y cyhoedd; ond os taria ef yn hir, âf ymlaen a'm sylwadau, ymhen ychydig fisoedd.

Ydwyf, &c.,

OWEN EVANS.

[Dyma yr olaf o Lythyrau Mr. Evans ar y pwnc mewn dadl rhyngddo a Mr. Jones, sef Cywir Ddarlleniad 1 Tim. iii. 16. Dichon fod rhai o'n darllenwyr o'r farn fod y ddadleuaeth wedi cael llenwi mwy o le yn yr *Ymofynydd* nag ydoedd yn gyfartal neu fwy nag oedd yn gyttunol âg *amrywiaeth* o destynau buddiol a dyddorol, ac ei bod yn llawn bryd bellach i brysuro at orpheniad. Teimlwn yn ddiolchgar i'r cyfryw am eu bod wedi cyd-ddwyn â ni yn amyneddgar a dirwgnach. Ond hyderwn nas bydd yn edifar gan neb o honynt i deimlo eu bod wedi aberthu ychydig er mwyn dal i fynu yr egwyddor dda o *ddangos chwareu teg* i'r naill ochr fel y llall yn mhob dadl; ac i roddi cyfle i'r cyhuddedig i amddiffyn ei hun—yn enwedig mewn perthynas â ffeithiau gwybyddus a thystiolaeth dysgeidiaeth ynghylch cywir ddarlleniad cyfran o'r Ysgrythyr Lan.

Mae yr un egwyddor yn gofyn rhoddi cyfle i Mr. Jones gael gwneuthur ei sylwadau eglurhaol neu amddiffyniadol, fel y gwelo yn gymmwys, yn yr *Ymofynydd*. Gan hyny bydd derbyniad a groesaw i un llythyr oddiwrth Mr. Jones, yn ychwanegol, ac i un llythyr wedi'n oddiwrth Mr. Evans mewn attebiad. Ac ar hyny gorphenir y ddadl, mor bell ag y perthyn i'n cyhoeddiad. A gadawer i ni yma i ddeisyf ar ein dau gyfaill i fod yn fyr, ac i ochelyd sylwadau aumherthynasol.—GOL.]

UFFERN HINDWAIDD.—Nid yw ardaloedd y tywyllwch yma yn hollol annghyrhaeddadwy i obaith; gall y pechadur yr hwn sydd yn eigion y poenedigaeth edrych yn y blaen at amser yn yr hwn y bydd ei enogrwydd wedi ei ddyhuddo, a phyrth dedwyddweh ddim mwyach yng nghau yn ei erbyn. Y mae cosbedigaeth tragywyddol yn ymddangos i'r Hindw yn niweidiol i rinwedd, ac yn wrthwynebol i drugaredd. Y mae pob Hindw yn credu fod ei enaid yn parhau i fodoli ar ol marwolaeth, ac i fyw mewn cyflwr mwy neu lai urddasol, yn ol y bywyd y mae wedi dreulio; ac y bydd iddo ar ol myned trwy nifer o wedd-newidiadau *(metamorphoses)* digonol i'w bureidgaeth i gael ei lyncu i fynu yn y sylwedd dwyfol. Dywedir fod rhai yn credu fod eu heneidiau yn cael eu danfon yn eu hol i'r fan lle cafodd eu cyrff eu llosgi, yno i aros hyd nes byddai cyrff newyddion i gael eu parotoi i'w derbyn. Hyn oedd un o opiniynau Plato, a'r hwn hefyd mae'n debygol a fabwysiadwyd gan rai, o'r hyn leiaf, o'r Cristnogion boreuol; oblegid y mae un o gyfreithiau Eglwys Rhufain yn gwahardd "arfer goleuadau, a gwneuthur llawenydd mewn mynwentydd yn y nos, rhag iddynt aflonyddu yr eneidiau a ddichon ddyfod yno." Y mae'n ymddangos hefyd ei fod yn farn rhai o'r Iuddewon fod enaid dynol, ar ol marwolaeth, yn bywydu amryw gyrff yn olynol, ac hefyd y gall dyn yn y bywyd presenol ddioddef cospedigaeth enogrwydd a ddarfu iddo dynnu arno ei hun mewn cyflwr blaenorol o'i fodoliaeth.—*Christian Reformer.*

Kanesion Tartrefol a Thramor.

Y Senedd.—Mae'r byd gwleidiadol unwaith etto yn neffro, ac mewn dwys ddisgwyliad. Y mae'r Senedd yn agor gyda gobeithion y bydd yr eisteddfod yn un o bwysigrwydd a gweithgarwch anarferol. Wrth bob argoel mae'n gwlad yn debyg o gael parhau yn y mwynhad o fendithion llwyddiant a heddwch, ac, ar y cyfan, yn ymddiried yn y Weinyddiaeth bresennol.

Dydd Mawrth, Ionawr 34, agorwyd y Senedd, gan y Frenhines yn bersonol, gyda'r rhwysg a'r rhodres arferol.

Araeth y Frenhines.—Yr oedd yr Araeth a draddododd ei Mawrhydi yn rhesymol o fyr, ac yn eglur a chynnwysfawr tuhwnt i'r cyffredinolrwydd o areithiau Brenhinol. Cyfeiriai at destunau ag ydynt o'r pwys a'r dyddordeb mwyaf, gan amlygu amcanion y llywodraeth yn eu cylch, mewn modd eglur a phendant a thra boddhaol i'r wlad, Matterion Itali ydynt, fel y gallesid disgwyl, yn cael eu lle gyda'r blaenaf. Dywedai y Frenhines ddarfod iddi gydsynio â gwahoddiad y ddau Ymherawdwr i anfon cynrychiolydd i'r *Congress* a gynnygid; ond bod ei chydsyniad yn seiliedig ar ddeall yn eglur a phendant nas byddai iddi ganiattau fod unrhyw orfodaeth o'r tu allan i gael ei ddefnyddio er rhwymo ar yr Italiaid unrhyw ffurf-lywodroeth neillduol. Ac yn awr pan y mae'r *Congress* (o'r herwydd, mae'n debygol) wedi cael ei ohirio, heb enwi dydd, bod ei llywodraeth yn parhau i fod yn benderfynol i ddal wrth yr un egwyddor, ac ymhlaid rhyddid yr Italiaid. Cyfeirir, ond yn fyr, at y cyttundeb masnachol â Ffrainc. Y mae'r cyttundeb, deallwn, bellach wedi cael ei arwyddnodi; ac y mae lle i obeithio y bydd yn foddion i gynnyrchu heddwch, llewndid, a gwelliant a chynnydd moesol i'r ddwy genedl yn gyffredinol. Mewn perthynas â China, dywed ei Mawrhydi ei bod hi ac Ymherawdwr Ffrainc yn parotoi llynges-gyrch gyda'r diben i fynnu iawn, a chyflawniad o gyttundeb Tientsing; ond eu bod yn gobeithio y bydd i lywodraeth Pekin i wrando ar lais rheswm a chyfiawnder, fel na byddo eisieu myned i ryfel. Cyfeiria hefyd yn fyr ond gyda boddhad at heddychiad India, ein perthynas o gyfeillgarwch âg Unol Daleithiau America, ac ymfalchia yn y mynediad gwirfoddol (*volunteer movement*) er gosod y wlad mewn sefyllfa o ddiogel-amddiffyniad. Ac nid aethpwyd heibio yr hen gwestiwn pwysig o *ddiwygiad y gynrychiolaeth;* eithr addawwyd mesurau i'r perwyl a fyddant yn helaeth ac yn drwyadl. Ymddengys fod y weinyddiaeth o'r diwedd wedi cymmeryd y matter mewn llaw o ddifrif. Rhoddodd Mr. Brand (y chwip newydd) hysbysiad dros Arg. J. Russell, y byddai y *Reform Bill* newydd gael ei ddwyn ger bron y Ty ar yr 20fed o Chwefror. Y testynau eraill y cyfeirir attynt ydynt, cyflwr boddhaol y Cyllid, sefyllfa lwyddiannus y wlad, a ffyddlondeb a boddlondeb ein tiriogaethau.

Gobeithiwn y bydd gweinyddiaeth ei Mawrhydi yn alluog i gyflawni eu haddewidion da.

Y Cyfandir.—Er fod prif bwerau Ewrop wedi appwyntio eu cynrychiolwyr awdurdodedig, a phob peth yn barod, fel y tybid, ymddengys nad eisteddodd y *Congress* wedi'r cyfan. Tebyg mai y telerau a osodwyd i lawr gan lywodraeth Prydain ynghyd â'r cymeradwyad o honynt gan Ffrainc, fu'r achos i Awstria dynu yn ol. Nid yw yn debygol y bydd i'r *Congress* ymgyfarfod o gwbl. Ac yn ol sefyllfa pethau yn bresennol y mae lle i ddisgwyl nas bydd i gyttundebau Villafranca a Zurich i gael bod yn rhwystr bellach i Daleithiau Gogleddol Itali gael sefydlu eu hannibyniaeth.

Mae'r Pab, druan ag ef, wedi bod yn achwyn yn dost ar anffyddlondeb Ymherawdwr Ffrainc, "Mab hynaf yr Eglwys," ac ar eraill o'i blant anwyl yn y ffydd. A rhaid addef ei bod yn ddigon i dori calon yr hen wr, i weled bod ei anffaeledigrwydd wedi ffaelu yn lan a chadw tylwyth oi dŷ ei hun mewn ufydd-dod a ffyddlondeb. Y Pabyddion Gwyddelig yw y rhai sydd wedi dangos fwyaf o gydymdeimlad âg ef, o bawb a gredant ei fod yn dwyn allweddau teyrnas nefoedd fel Ficer Crist ar y ddaear, ac olynydd St. Pedr.

EISTEDDFOD Y CRIBYN.

Cadwyd ail eisteddfod neu gyfarfod cystadleuol y lle uchod, Rhagfyr 26: Dr. Douglas, Rhydyfran, yn y gadair. Beirniaid,—y Parch. F. Thomas, Pantydefaid; Stephen Jones, Ysw., Glanwern; a Mr. Jenkin Jenkins, Felin-fach; cynorthwyedig gan y cadeirydd medrus. Sefydlwyd y cyfarfodydd hyn er ys blwyddyn yn ol, er attal oferedd ar ddydd Nadolig, ac er anogaeth i Ysgol Sabbothol y lle. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch, a therfynodd oddeutu 6 yn yr hwyr. Bernir ar sail dda fod yno oddeutu 400 yn bresenol. Ganol dydd yr oedd bwyd blasus wedi ei barotoi gan amryw yn y gymydogaeth i laweroedd, ac yn yr hwyr digonedd o dê i bawb o'r adroddwyr, ac i ugeiniau ó rai eraill, gyda phob groesaw. Nid oes un dadl na chafodd pawb yn eu pwyll eu llwyr foddloni.

Cyonygir yn awr gynllun byr o'r gwaith a wnaethpwyd yno, yn ystod y dydd, fel y canlyn:

Y BOREU—

1. Adroddwyd Salm xxiii. gan blant: cystadleuodd 16; goreu, Dinah Jones, Penrhiw Dihewyd; ail, Eliza Jones, Penrhiw Cribyn.

2. Adroddwyd Salm xix., 6 yn cystadlu; goreu, Eliza Jones, Penrhiw Cribyn; ail, Anne Evans, Cribyn.

3. Adrodd prydyddiaeth D. Thomas, Cribyn, ar y Bibl; goreu, Eliza Jones, Penrhiw Dihewyd.

4. Canu y "Waters of Babylon," 4 yn cystadlu; goreu, Mary Thomas, Mydroilin, ac Anne Evans, Maesmynach; ail, y ddwy chwaer, merched John Davies, Pantywilco, Llanarmon.

5. Adrodd "Beth yw Crefydd," gwaith D. Thomas, 7 yn cystadlu; goreu, Jenkin ac Evan Jenkins, Rhydybenne; ail, Elinor Jones, Rhydycwrt, ac Elizabeth Jones, Penrhiw Dihewyd.

6. Adrodd "Fy enaid trist, bydd siriol," gwaith Mr. Rhys Jones, 10 yn yn cystadlu; goreu, Dinah Jones, Rhydycwrt Dihewyd; ail, David Hughes, Ty'nygwndwn, Ystrad.

7. Canu "Gramachree," neu Ymweliad y Bardd, gan Tegid; goreu, John Jenkins, Blaenwaun, a John Davies, ieu., Cribyn; ail, Daniel Thomas, Cribyn, a John Williams, Gwernfeilliog.

8. Adrodd "Dychweliad y Mab Afradlon,' gan Daniel Ddu, 3 yn cystadlu; goreu, Dinah Jones, Penrhiw Dihewyd.

9. Canu St. Sebastian; goreu, David Evans, Tanygaer, a'i Gyf.

10. Adrodd "Interlute Moses bach,"—dau gwmni yn cystadlu; rhanwyd y wobr rhwng Sarah Jenkins, Rhydybenne, ac Ann Evans, Maesymynach, a'u Cyf.

Y PRYDNAWN—

Adroddwyd prydyddíaeth gan Dewi Dawel, a hanesyn gan W. Jones, Llettybowen, am wobrwy a roddwyd gan y Parch. T. Thomas, yr hwn hefyd a gynnygiodd wobrwy am ddarllen y 6ed pennill o gyfeithiad y Parch. D. Davies, gynt o Gastellhywel, o "Gray's Elegy": 12 yn cystadlu; enillodd Mrs. Jenkins, Rhydybenne, y gamp. Canwyd "Boed llwydd i Gymru dirion" yn wirfoddol gan D. Jenkins, Blaenwaun; ac yna awdl yn rheolaidd a'r cyfarfod.

1. Adrodd "Ieuan ac Ifan," gan Daniel Ddu, 6 yn cystadlu; goreu, James Evans, Cribyn, a Jenkin Evans, Llysfan Mill; ail, Rhys Jones a John Jones, Cwmpoeth.

2. Adroddwyd "Cywydd y Fesen," gan Daniel Ddu, yn rhagorol dda gan y naw adroddwyr; ond y goreu oeddynt Jenkin Jenkins, Rhydybenne, a Rhys Jones, Cwmpoeth; ail, Evan a Sarah Jenkins, Rhydybenne, a'r trydydd, Anne Evans, Mount.

3. Canwyd yr "Hen Dderwen"; goreu, Daniel Hughes a'i Gyf.; ail, David Evans, Tanygar, Cribyn, a'i Gyf.

4. Adrodd yr "Hen gadair freichiau"; goreu, Thos. Jenkins, Blaenwern; ail, Evan Jenkins, Rhydybenne.

5. Canu Cân y Fam wrth fagu ei phlentyn, 6 yn cystadlu; goreu, Anne Evans, Maesmynach; ail, Elizabeth Harries, Blaenwaun. Gwobrwywyd dwy eraill, sef Anne Jones, Troedyrhiw, Cribyn, a Mary Jones, Penlanganol, etto.

6. Adrodd y "Wlad well," cyfd. gan G. Marles; goreu, Evan a Sarah Jenkins, Rhydybenne; ail, Jenkin Jenkins, Rhydybenne, ac Anne Evans, Maesmynach.

7. Adrodd "Cladddedigaeth y Morwr," o'r Baner, 5 yn cystadlu; goreu, Jenkin Jenkins, Rhydybenne; ail, James Evans, Cribyn, a Sarah Jenkins, Rhydybenne.

8. Canu y "Milwr Clwyfedig," 5 yn cystadlu; goreu, John Evans, Cwmmerau, a'i Gyf.; ail, Evans, Tanygar, a'i Gyf.

9. Canu "Ie'nctyd Cymru," 7 yn cystadlu; goreu, Daniel Thomas, Cribyn; ail, David Evans, Tanygaer.

Yn nghwrs cyfarfod y boreu, adroddwyd gan Mr. S. Jones, Cribyn, englynion rhagorol o waith Gwilym y Cwrt i'r eisteddfod, y rhai, os gellir, a gynnygir i'r *Trefnyddion* yn fuan. Yr oedd y gwobrwyon yn gynnwysedig o lyfrau defnyddiol ac arian. Rhoddodd D. Douglas wobrwy o werth 5s. i'r areithydd goreu ar Ddefnyddioldeb Cymdeithasau a Chyfarfodydd o'r fath. Un yn unig a ddaeth ymlaen fel ymgeisydd, yr hwn a gafodd ei wobrwyo, sef Mr. J. Lewis, Capel St. Silin. Areithiodd dau eraill yn rhad, sef Mr. Jenkins, Rhydybenne, a Mr. Walter Jenkins, Blaenwern, yr oedd eu ar-

eithiau yn teilyngu y cymeradwyaeth a gawsant. Wedi i'r Parch. T. Thomas, annerch y gynnulleidfa yn ddyddorol iawn, ac i'r Gweinidog gynnyg diolchgarwch i'r Cadeirydd am ei ymddygiad addas, ac i'r Beirniaid yr un modd, canwyd yn unfrydol "God save the Queen." Ac felly terfynwyd un o'r cyfarfodydd goreu a welwyd erioed yn yr holl gymydogaethau hyn. Gwnaed cysgaduron Cristnogol ein hoes yr un modd.

Yr eiddoch yn barchus,
TAU GIMEL.

MARWOLAETH.

Rhagfyr 10, 1859, yn 55 mlwydd oed, bu farw y Parchedig William Davies, Ph.D., athraw yn Ngholeg Caerfyrddin, a gynt o Ffrwd-y-fâl. Yr oedd ein cyfaill, pan yn dechreu yr Ail Gyfres, gyda ni, yn teimlo yn bur galonog. Ei waith ef ydoedd Hanes yr Iuddewon, a ymddangosodd yn yr *Ymofynydd* am y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn 1859. Ond yn fuan daeth clefyd i'w gyfarfod, yr hwn yn raddol a wanhaodd ei gyfansoddiad corphorol ac o'r diwedd a fu yn foddion i'w symud o blith y byw. Dioddefodd gystudd trwm yn hynod o amyneddgar. Fel athraw llafurus a dysgedig teimlir fod ei ymadawiad trwy weinidogaeth anghau, yn golled mawr i'r Coleg ac i eglwysi Cymru yn gyffredinol. Gobeithiwn y bydd i ryw un o'i ysgolheigion ysgrifenu bywgraffiad Dr. Davies, fel y gallom ei gyhoeddi yn yr *Ymofynydd*.

Barddoniaeth.

ANNERCHIAD

I Gyfarfod Cystadleuol a Llenyddol y Cribyn, Llun Nadolig, 1859.

"Talysarn dan farn a fyn,
A'r Crabach hyd y Cribyn."
J. W.

Nid crabach fydd nod y Cribyn—mwyach,
Mae uwch nod i'w ganlyn,
Na son am un eisynyn,
Na gwag rith, ond gwenith gwyn.

Dewch ie'ngtyd gloywbryd a glan,
Yn unllaw i'r fawr winllan,
Gwinllan dysg, o gynllun da,
Yn llawn o win a'n llona;
Addysgwch areithio'n ddwysgall,
Ymwneyd a gweyd heb un gwall,
A dysgu sillebu'n llawn
Yn unol a'r ffordd uniawn;
Gadewch bob nod fod i'w fan,
A'i heinyf le ei hunan,—
Rhoi ei swn i bob rhyw sill,
Nid pwnio nodau penill:
Dilynwch y da lanwaith,
Cewch bur wir gysur o'r gwaith.

Llon noddi darllenyddiaeth——a wneloch,
Gan hwylio cerddoriaeth;
Cynyg at bêr acceniaeth
Byddoch chwi, er boddio chwaeth.

Os codwch mewn dysgeidiaeth,—ereswyr,
I risiau gwybodaeth,
Cewch ragorol fywiol faeth,
O noddi awenyddiaeth.

Du wywodd bywyd awen,
O dan oer gur sur a sen;
Pan i'r bedd oer wedd yr âi
Y dynion a'i hadwaenai,—
Ei Rhisiard a oer wysiwyd,
Syrthiodd lawr i'r llawr ei Llwyd,
Drwy ing y llas dewr angau llym
Y gwiwlwys D. ab Gwilym;
Ys! Dewi aeth is daear,
Ac Amnon, y gwiwlon gâr,
A Reuben, fardd oreu-barch,
O'i "goed" a roed yn yr arch,
A'r bardd Dh, a fu yn faeth
A nawdd i awenyddiaeth.
Aeth ei char i'r ddaear ddu,
I lwch y bedd i lechu,
Yn waeledd iawn wylodd hi,
Yn chwerwaidd 'rol ei chawri.
Ond wele wawr yn awr i ni
O lawenaf oleuni;

Gwelaf gu hoff lu o'i phlaid,
Rai anwyl o bur enaid,
I feithrin a thrin ei thras,
A'i dethol i gymdeithas.
Proffwydodd pur hoff awdwr
Y "Winllan," oreulan wr,
Y gwelid bryniau Gwalia
Gan awen deg yn gwnwd da,—
Y dygai Ceredigion
Areithwyr, llenyddwyr llon:

Rhagwelodd ef argoelion,——ein hen dad,
Pan d'wedai ô'i galon,
"Canant o Gapel Cynon
Yn hyfedr i Lanbedr lon."

Un ail ei ddawn i Daniel Ddu
O honoch fyddo'n hanu,
A deued ail i Dewi
Yn glod a nawdd i'n gwlad ni;
Doed yn bêr llawer gwr llen,
Arabedd ail i Reuben,
Ail Edward Risiard o rym,
Ac ail i D. ab Gwilym;
Doed gwir wresog fywiog feirdd,
Brofant eu bod yn brif-feirdd,
Rhowch iawn gân o'r wych hen gyff,
Iawn bencerdd o'r un boncyff.

Ceir o benau'r Cribyniaid——areithiau
I'r eithaf yn delaid,
A llonwych i well enaid,
Awenydd o newydd naid.

Ymlaen yr eloch am lân orielau,
A phyrth uchel-ddysg o gymysg emau;
Ymwrolwch a dringwch hyd rengau
Hardd ddysgedigion dynion y doniau,
Byw a dethol eu gwybodaethau,
A da helyntion eu mawr dalentau;
Llwydd rhydd i awenydd wau:—ymnerthwch
A hir ddilynwch eu haur ddalenau.

G. GWENOG.

BEDDARGRAFF

Y diweddar Barch. David John, Merthyr Tydfil.

Gweinidog a fu'n genhadydd——dibaid
I'r Duw Byw oedd Dafydd;
Hen a didwyll Undodydd
Fu, hoff wr, a chryf ei ffydd.

Oes hwn oedd o wasanaeth——i'w deulu
Dilesg a'i genhedlaeth:
Oll yn wir a allai wnaeth;
O'i farw dwys saif hiraeth.

DEWI GLANTAF.

Rhymi.

HOEDLEDD AWEN.

Diwedd y byd a ddaw i ben,——a daw
Diwedd i bob dyben;
Ond duwiawl enaid Awen
Bery'n fyw tra bo'r nef wen.

I. M.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.